

Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 26 Hydref 2017 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 20 Hydref 2017.

Yn

bresennol: Y Cynghorydd Sir Derbyshire (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Bale, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Congreve, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Caerhirfryn, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Dianne Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

68 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorwyr Murphy a Phillips

69 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd Joel Williams fuddiant yn Eitem 9 (Datganiadau) ar y sail ei fod yn Gyfarwyddwr Diverse Cymru a Chartrefi Gofal Cartref.

70 : COFNODION

Atgoffwyd y Cyngor o'r ffaith y cytunwyd y byddai geiriad terfynol y Cynnig Cyfansawdd A DDERBYNIWYD yn y cyfarfod diwethaf yn cael ei gytuno rhwng y Cynigiwr y Cynnig a Chynigwyr y ddau ddiwygiad, a'i gyhoeddi yn rhan o gofnodion y cyfarfod hwn.

Cadarnhawyd y Cynnig Cyfansawdd fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r canlynol

1. Fel Aelodau Etholedig mae gennym ni gyfrifoldeb dros ein Dinas ac mae hynny'n cynnwys creu cymunedau cynaliadwy, gyda chynlluniau cynhwysfawr i gyflawni datrysiadau rhwydwaith, beicio, cerddwyr a ffyrdd sy'n gyraeddadwy. Hefyd mae gennym gyfrifoldeb dros iechyd a lles cenedlaethau presennol a rhai y dyfodol.
2. Mae'r Cyngor Caerdydd yn cydnabod bod twf ar draws y ddinas wedi rhoi pwysau difrifol ar ein system drafnidiaeth. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r

goblygiadau iechyd difrifol o lygredd awyr a achosir yn bennaf gan gerbydau modur.

3. Mae her ddifrifol yn wynebu Caerdydd o ran darparu opsiynau addas ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus wrth i'r ddinas dyfu yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol a thu hwnt. Mae cynnydd o ran capasiti trafndiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd yn hanfodol. Mae hyn o leiaf angen bod yn unol â'r rhagolygon twf sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI, ac i baratoi ar gyfer twf mewn cymudwyr yn cyrraedd o awdurdodau cymdogol.
4. Yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu seilwaith wedi'i wella er mwyn teithio llesol yn y ddinas. Mae beicio a cherdded nid yn unig yn darparu dewisiadau amgen i deithiau car, ond gallant wella ein hiechyd a lles yn gyffredinol.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet

1. I gyflwyno Papur Gwyrdd a galluogi sgwrs lawn gydag ystod eang o randdeiliaid ar ddyfodol system drafnidiaeth Caerdydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

CYTUNWYD – bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

71 : DEISEBAU

- 1 Y Cynghorydd Philippa Hill-John – 117 o lofnodion yn gofyn am ailgyflwyno'r person lolipop yn y groesfan sy'n arwain at gefn Ysgol Gynradd Dinas Llandaf ar Ffordd Caerdydd.
- 2 Y Cynghorydd Ramesh Patel – 61 o lofnodion yn gofyn am osod giât y mae modd ei chloi, gyda mynediad yn y dyfodol ag allwedd gan breswylwyr lleol yn unig ar waelod Lansdowne Avenue West, Treganna.
- 3 Y Cynghorydd Ashley Wood – 77 o lofnodion yn galw am ymestyn y giatiau sydd eisoes yn gorchuddio'r lôn gefn y tu ôl i Heathfield Road i orchuddio'r lôn rhwng Heathfield Place a Pen-y-Bryn
- 4 Y Cynghorydd Cowan – 157 o lofnodion yn galw ar y Cyngor i atgyweirio a gosod yn newydd yr holl offer chwarae y mae wedi cael gwared arnynt ar hyn o bryd o Ardal Agored Llanisien Fach, ac i atgyweirio neu osod yn newydd unrhyw offer arall sydd ei angen.
- 5 Y Cynghorydd Ashley Wood – 20 o lofnodion yn galw ar y Cyngor i gyflwyno mesurau i fynd i'r afael â pharcio dwbl ar Stryd Herbert ac i atal rhwystro'r ffordd.
- 6 Y Cynghorydd Owen Jones – 111 o lofnodion yn annog Cyngor Caerdydd i wrthod caniatâd cynllunio i Crosslane Student Developments adeiladu llety myfyrwyr 10 llawer newydd pwrpasol wrth Gerddi Howard ar Newport Road Lane.

72 : CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Cwestiwn gan y cyhoedd: *Eleanor Sanders*

Fel Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr ym Manc Bwyd Caerdydd, rwy'n pryderu'n fawr am yr effaith y bydd cyflwyno'r Credyd Cynhwysol ym mis Chwefror 2018 yn ei chael ar y rhai hynny sydd eisoes mewn angen ac mewn tlodi ledled ein dinas. Yn seiliedig ar y profiadau a adroddwyd mewn dinasoedd eraill, rydym ni yn y Banc Bwyd yn rhagweld cynnydd mewn niferoedd yn dod i'n saith Canolfan Ddosbarthu ar draws y ddinas. Rydym eisoes wedi gweld dros 10% o gynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Er ein bod ni yn amlwg eisiau darparu cymorth drwy roi cyngor a bwyd nad yw'n ddarvoudus, mae'n drist iawn fod pobl ei angen yn y lle cyntaf. Beth y mae'r Cyngor yn ei wneud i sicrhau y bydd y rhai hynny sy'n gorfod newid i dderbyn Credyd Cynhwysol yn cael eu cefnogi wrth wneud y newid hwn, ac na fydd hyn yn arwain at ragor o angen drwy oedi neu wallau y mae modd eu hosgoi?

Ymateb: *Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, y Cyngorydd Lynda Thorne*

Rwyf wirioneddol yn rhannu eich pryderon am yr effaith y bydd Credyd Cynhwysol yn ei gael ar ein dinasyddion agored i niwed.

Yn ddiweddar, es i gyfarfod gydag Aelodau Cabinet o bob rhan o Gymru, lle mynegwyd pryderon mawr gan yr Awdurdodau peilot ynghylch oedi o ran taliadau ac ôl-ddyledion. Gwnaethom gytuno i ysgrifennu llythyr ar y cyd i Lywodraeth San Steffan yn gofyn iddynt atal cyflwyno Credyd Cynhwysol hyd onid ymdrinnir â'r diffygion sylfaenol gyda'r budd-dal. Yn anffodus, nid wyf yn credu y bydd hynny'n digwydd er bod newyddion y bore yma yn nodi bod y Llywodraeth wedi neilltuo cynlluniau i gapio Budd-dal Tai yn y sector tai cymdeithasol, a fyddai'n effeithio pobl dan 35 oed, a fyddai ond wedi derbyn Budd-dal Tai am ystafell mewn tŷ a rennir; byddai wedi effeithio ar Bensiynwyr nad oes digon o bobl yn meddiannu eu heiddo a byddai wedi peri dyfodol ansicr ar gyfer ein Llety Gwarchod.

Ar hyn o bryd, yng Nghaerdydd, dim ond hawliadau newydd ar gyfer pobl sengl sy'n gweithio a delir drwy Gredyd Cynhwysol; fodd bynnag, o ddiwedd mis Chwefror flwyddyn nesaf, bydd "Gwasanaeth Llawn" yn dechrau a bydd hyn yn berthnasol i hawlwr newydd, gan gynnwys teuluoedd a phobl anabl.

Mae tîm Cyngori'r Cyngor eisoes yn rhoi cymorth i'r rhai hynny yr effeithir arnynt gan Gredyd Cynhwysol. Mae'r cymorth hwn ar gael ar draws y ddinas mewn Hybiau a lleoliadau cymunedol eraill, gan gynnwys Banciau Bwyd.

Mae cymorth digidol ar gael er mwyn helpu pobl i hawlio ar-lein, i gynnal eu cyfrifon ac i osgoi sancsiynau.

Mae cymorth cyllidebu hefyd ar gael er mwyn helpu pobl i reoli eu harian; mae hyn yn hanfodol gan na chaiff taliadau Credyd Cynhwysol eu gwneud am o leiaf 5 neu 6 wythnos ar ôl yr hawliad, ac mae rhai awdurdodau lleol yn adrodd oedi llawer hirach.

Bydd cymorth ar gael i bobl wneud cais am Ragdaliad o'r Credyd Cynhwysol ac i sicrhau bod pob grant, gostyngiad, taliad brys neu galedi sydd ar gael yn cael eu hawlio.

Mae cynllun gweithredu llawn wedi'i ddatblygu er mwyn mynd i'r afael â'r newid o fis Chwefror y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn cynnwys cynyddu nifer y cyfrifiaduron cyhoeddus sydd ar gael ar draws y ddinas a sicrhau bod mwy o staff yn cael eu hyfforddi i roi cymorth.

Cynllunnir ymgyrch ymwybyddiaeth a darperir hyfforddiant llawn i staff a phartneriaid allweddol megis cymdeithasau tai a darparwyr cymorth. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i'r ffordd orau o helpu a chefnogi landlordiaid preifat â'r newid er mwyn osgoi ôl-ddyledion ac atal digartrefedd lle y bo'n bosibl.

Rwy'n llwyr werthfawrogi'r gwaith a wneir gan y Banciau Bwyd yn y ddinas ac rwy'n gobeithio y gallwn barhau i gydweithio i helpu i liniaru tlodi a chefnogi'r rhai hynny sy'n agored i niwed yn ein Dinas.

Cwestiwn Atodol gan y Cyhoedd: *Eleanor Sanders*

Rwy'n gobeithio ei bod yn amlwg mai fy mhrif fwriad dros ddod yma y prynhawn yma yw tynnu sylw at stad cymaint ar draws ein Dinas. Mae'n peri loes i mi feddwl fod oedolion a phlant sy'n llwgu heddiw. Rwy'n ymrwymedig drwy'r Banc Bwyd i roi bwyd brys iddynt, ond mae angen i ni wybod amdanynt a'u cyfeirio'n briodol.

A gaf i ofyn felly eich bod yn ymrwymo i sicrhau bod eich staff yn y Cyngor yn gweithio'n agos gyda ni er mwyn helpu i fodloni anghenion, yn enwedig o ystyried y cynnydd sydyn mewn galw o fis Chwefror nesaf?

Mae tystiolaeth yn dangos lle y gweithredir Credyd Cynhwysol, bu cynnydd o tua 17% yn y gyfradd atgyfeirio at fanciau bwyd. Yng Nghaerdydd, byddai hynny'n golygu rhoi bwyd i tua 2500 o unigolion ychwanegol yn seiliedig ar ffigurau'r llynedd, pan lwyddasom i roi bwyd brys i 14500 o bobl. Yn ychwanegol at y cynnydd blynyddol, mae'n rhaid i ni reoli hyn mewn partneriaethau, oherwydd pan fo unigolion yn teimlo'n llwglyd, o ganlyniad i'r oedi o fis Chwefror nesaf, y Banc Bwyd bron yn sicr fydd y ffynhonnell atgyfeirio amlwg.

Ymateb: *Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, y Cyngorydd Lynda Thorne*

Rydym yn gweithredu cynlluniau i sicrhau ein bod yn helpu cymaint o bobl ag sy'n bosibl, a byddwn yn sicr yn gweithio gyda chi i sicrhau y cyfeirir pawb sydd angen hynny. Credaf ein bod ni hefyd angen cydweithio i sicrhau ein bod yn ymdrechu i annog mwy o bobl i roi i'r Banciau Bwyd, oherwydd weithiau, pan fo'n digwydd am gyfnod hir, mae diffyg ymwybyddiaeth ac efallai bod angen i ni hyrwyddo hynny'n well a chael ymgyrch go iawn ar ei gyfer - felly carwn weithio gyda chi ar y ddau beth hynny.

73 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Betty Campbell

Adroddodd yr Arglwydd Faer â chalon brudd y bu farw Betty Campbell, cyn Cyngorydd, ar ddydd Gwener 13 Hydref 2017 yn 82 oed. Ganed Betty yn ei chymuned annwyl, Butetown, lle y gwasanaethodd fel Cyngorydd, Arweinydd Cymunedol a Phennaeth ysgol. Roedd Betty yn bencampwr addysg, amrywiaeth a thegwch a bydd ei theulu agos ac estynedig yn Butetown a thu hwnt yn gweld ei cholli'n fawr.

Derbyniwyd cyfraniadau gan y Cynghorwyr Merry, Walker, Berman, McEvoy, Ebrahim a Cowan

Dros y mis diwethaf, mynychodd yr Arglwydd Faer lawer o ddigwyddiadau amrywiol, gan gynnwys dadorchuddio Cofeb Rhyfel Ynysoedd y Falklands, dadorchuddio'r Cerflun hir ddisgwylidig o Mahatma Gandhi yn y Bae a Chyngerdd Gwobrau Llysgennad y Swistir. Hefyd, mynychodd yr Arglwydd Faer gyflwyniad yn HMS Cambia yn manylu ar eu cyfleuster o'r radd flaenaf gwerth £11 miliwn sydd newydd ei gymeradwyo. Bydd y cyfleuster yn cael ei adeiladu ym Mae Caerdydd a bwriedir gorffen ei adeiladu ym mis Mawrth 2019.

Bu Swyddogion Llynges Ffrainc, grŵp o Fyfirwyr brwdfrydig o'r Swistir a Chomander Rhanbarthol y Llynges yng Nghymru a Gorllewin Lloegr, yn ymweld hefyd. Hefyd, cynhaliodd yr Arglwydd Faer ddwy Seremoni Ddinasyddiaeth Brydeinig ac roedd yn falch o allu rhoi cydnabyddiaeth i ddau ddinesydd Caerdydd am gael eu pen-blwydd yn 100 oed.

Parhaodd gwaith codi arian gyda RSPB Cymru a Bug Life Cymru a hoffwn atgoffa Aelodau fod bathodynnau pin ar gael i'w prynu yn Neuadd y Ddinas, Neuadd y Ddinas, Castell Caerdydd a'r Eglwys Norwyaidd. Rhoddir yr holl arian a godwyd i Elusen yr Arglwydd Faer.

Fis nesaf, byddai'r Arglwydd Faer yn mynychu nifer o ddigwyddiadau i goffau'r rhai hynny a fu farw yn y 2 ryfel byd a gwrthdaro dilynol. Gobeithiodd yr Arglwydd Faer y byddai cydweithwyr hefyd yn mynychu un o'r amrywiol wasanaethau coffa ar 12 Tachwedd.

Rhoddwyd gwybod i aelodau am apêl codi arian Cymdeithas Bangladesh Caerdydd ar gyfer ffoaduriaid Rohingya. Hyd yn hyn, mae'r Gymdeithas wedi casglu dros £10,000 ac mae ganddi darged i godi £50,000 i gefnogi Apêl yr Argyfwng. Ddydd Mercher rhwng 5pm a hanner nos, mae'r Gymdeithas wedi trefnu noson gyri mewn nifer o fwytai. Byddai manylion yn cael eu dosbarthu.

Dosbarthwyd o amgylch y Siambr heddiw fanylion am y Cydnabyddiadau a'r Gwobrau ers y cyfarfod diwethaf, ac rydym yn llongyfarch pawb dan sylw ar eu llwyddiant.

74 : CYNLLUN GWELLA STATUDOL CYNGOR CAERDYDD

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver, Adroddiad Gwella Statudol Blynyddol 2016-17. Eiliwyd hyn gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Huw Thomas.

Paratowyd yr adroddiad er mwyn galluogi'r Cabinet i gymeradwyo Adroddiad Gwella Statudol Blynyddol y Cyngor, sef dogfen sy'n ofynnol dan Fesurau Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i'w cyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref 2017, a'i chyhoeddi erbyn 31 Hydref 2017.

Adroddodd yr Aelodau Cabinet ar y pedair blaenoriaeth ganlynol a nodwyd fel meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt:

- Addysg a sgiliau gwell i bawb
- Cefnogi Pobl sy'n Agored i Niwed
- Creu mwy o swyddi a rhai sy'n talu well
- Cydweithio i drawsnewid gwasanaethau

Aethpwyd i'r afael ag amcanion gwella'r Cyngor a'r hyn yr oedd y Cyngor yn canolbwyntio arno.

Yn ystod y ddadl, cododd Aelodau faterion ynghylch Meincnodi, ystadegau Gwella Llywodraeth Cymru a heriau. Perfformiad addysgol mewn Gwyddoniaeth, Mathemateg a Darllen o'i gymharu â gweddill Cymru. Diffyg cyfeiriad at Hawliau Plentyn y Cenhedloedd Unedig yn yr adroddiad, ynghyd â hyfforddiant AEA. Manylion am briffyrdd ac ystadegau am lendid ffyrdd; diwrnodau absenoldeb salwch a gollwyd yn ystod y flwyddyn diwethaf a boddhad cwsmeriaid cyffredinol.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i faterion a godwyd, gan dynnu sylw at gofnodi ac adrodd dangosyddion perfformiad. Cofnodwyd gwelliannau sylweddol ym myd Addysg ac ymdriniwyd ag absenoldeb salwch.

Cafwyd pleidlais ynghylch yr adroddiad ac fe gafodd ei DDERBYN.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Gwella Blynyddol Statudol y Cyngor er mwyn ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2017.

75 : PENODI CYNGHORYDD CYMUNEDOL I'R PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

Ystyriodd y Cyngor argymhellion Panel Penodi'r Pwyllgor Safonau a Moeseg o 13 Hydref ar gyfer penodi Aelod o'r Cyngor Cymuned.

PENDERFYNWYD –

1. cymeradwyo argymhelliad Panel Penodi'r Pwyllgor Safonau a Moeseg yn dilyn proses ddethol ar 13 Hydref 2017 i benodi'r Cynghorydd Cymuned Richard Stuart

Thomas yn Aelod Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor Safonau a Moeseg, gydag effaith o 27 Hydref 2017.

2. y cyfnod yn y swydd i fod tan yr etholiad lleol arferol nesaf, a ellir ei ymestyn i un tymor olynol arall.

76 : DATGANIADAU

Derbyniwyd y datganiadau canlynol hyn:

1. [Datganiad yr Arweinydd](#)
Ymatebodd yr arweinydd i gwestiynau ynghylch ei ddatganiad yn ymwneud â'r Cynllun Llesiant; sut y cyflwynwyd polisiâu i lechyd Cyhoeddus Cymru; y Dinasoedd Craidd a'r Fargen Ddinesig, Cynllun Ansawdd Aer, Strategaeth Aer Glanach sy'n effeithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac ehangu pwyntiau gwefru cerbydau trydanol.
2. [Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau](#)
Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ynghylch ei datganiad yn ymwneud â'r ymrwymiad i adeiladu cartrefi; blychau rhodd ar gyfer cysgwyr ar y stryd; sicrwydd cadw'r gwasanaeth llyfrgell yn Rhiwbeina a chefnogi her ddarllen yr haf.
3. [Aelod Cabinet, Plant a Theuluoedd](#)
Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ynghylch ei ddatganiad yn ymwneud ag ymyriadau cynnar yn yr ysgol i atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a chynnwys Rhieni a'r gwasanaeth MASH.
4. [Aelod Cabinet, Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles](#)
Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ynghylch ei datganiad yn ymwneud â Llety i Bobl Hŷn mewn cysylltiad â'r Cynllun Datblygu Lleol a chynlluniau sydd ar waith i gefnogi dinasyddion hŷn ar lefel ddigidol.
5. [Aelod Cabinet, Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth](#)
Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ynghylch ei ddatganiad yn ymwneud â grutio Taith Taf a hyfforddiant beicio.
6. [Aelod Cabinet, Buddsoddi a Datblygu](#)
Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ynghylch ei ddatganiad yn ymwneud â gwarediadau tir, maes parcio NCP a'r Orsaf Fysus.
7. [Aelod Cabinet, Diwylliant a Hamdden](#)
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ynghylch ei ddatganiad yn ymwneud â gwaith ar lwybrau cerdded ym Mharc Coed-y-Nant a digwyddiadau a gynhelir yng Nghaerdydd a'r seilwaith sy'n bodoli i gefnogi hyn.
8. [Dirprwy Arweinydd, Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ynghylch ei datganiad yn ymwneud ag *Employable Me*, Mis Hanes Pobl Dduon a Diwrnod Ieithoedd Ewrop.

9. [Aelod Cabinet, Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ynghylch ei ddatganiad yn ymwneud ag ystadegau gwe, y cyflog byw ac ymrwymadau i we-ddarlledu.

77 : HYSBYSIAD CYNNIG

Dyweddodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig, wedi'i gynnig gan y Cyngorydd Rhys Taylor sydd wedi'i eilio gan y Cyngorydd Joe Carter, wedi'i gyflwyno a'i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr Hysbysiad o Gynnig fel a ganlyn:

Mae system addysg deg yn sicrhau nad yw anfantais economaidd yn rhwystr rhag gallu cyrchu addysg briodol.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r canlynol:

- 1) yn cymeradwyo'r nod corfforaethol i leihau'r bwlch o ran deilliannau a chyfleoedd addysgol;
- 2) yn nodi'r cynnydd yn nifer y disgyblion o 27,789 yn 2010 i 33,469 ym mis Ionawr 2017;
- 3) yn nodi y bydd y galw am lefydd cyfrwng Saesneg adeg mynediad ysgol uwchradd yn fwy na nifer y llefydd erbyn mis Medi 2019; a'r galw am lefydd Cymraeg adeg mynediad uwchradd yn fwy na nifer y llefydd erbyn mis Medi 2021;
- 4) yn nodi'r wasgfa bresennol ar yr ystâd ysgolion ac na lwyddodd bron i 20% o ddisgyblion sicrhau unrhyw un o'u tri dewis cyntaf ar gyfer llefydd ysgol uwchradd yn 2016/17;
- 5) yn nodi fod y bwlch cyrhaeddiad adeg Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer y plant hynny sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim yn 33.7 yn 2017.
- 6) yn cydnabod bod teuluoedd sydd â'r modd economaidd i wneud hynny yn gallu symud o fewn dalgylchoedd er mwyn gallu sicrhau llefydd mewn ysgolion sydd wedi eu gordanysgrifio, gan arwain at erydu cydlyniad cymunedol ac o bosib at ledu'r bwlch parthed deilliannau a chyfleoedd addysgol.

Mae'r Cyngor yn galw ar y Cabinet i wneud y canlynol:

- 1) Cwblhau ymarfer ariannol fel rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb ac er mwyn bwydo'r drafodaeth ar y gyllideb, a chyfrifo:
 - a. effaith cynnig cludiant ysgol uwchradd am ddim i unrhyw un sy'n byw dros 2.5 milltir o'u hysgol uwchradd;
 - b. Cost arfaethedig ailgyflwyno darpariaeth cludiant yn ôl disgrisiwn i oedolion ifanc ag anableddau dysgu neu gorfforol mewn addysg 16-19 oed, fel ag a ganiateir yn Adran 6 Gorchymyn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

- 2) Yng nghyfarfod y cyngor fis Tachwedd, cyflwyno amlinelliad manwl o sut y bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg lleoedd yn y dyfodol agos yn ysgolion uwchradd presennol y ddinas.

Rhoddodd yr Arglwydd Faer wybod bod dau ddiwygiad i'r Cynnig wedi'u derbyn:-

Diwygiad 1:

Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Sean Driscoll

Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Gavin Hill- John

Dileu'r geiriau 'nad yw'n rhwyst'r yn y frawddeg agoriadol, gan nodi "*nac anabledd yn rhwystrau*" yn lle hynny.

O dan bwynt datrys 1 (b), ychwanegu ail frawddeg

"Bydd hyn yn cynnwys trosglwyddo i sefydliad addysg bellach cydnabyddedig bobl ifanc rhwng 16 ac 19 oed y gwrthodwyd cludiant iddynt o ganlyniad i gael gwared ar y gwasanaeth fesul tipyn yn rhan o bolisi trafndiaeth 2015."

Ychwanegu Pwynt 3 newydd:

"3. Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd, cyflwyno datrysiad manwl o sut y bydd yn gwyrddroi ar unwaith y penderfyniad i dynnu cyllid yn ôl ar gyfer plant ag anableddau (nad ydynt yn gallu manteisio ar y cynllun cludiant bws i'r ysgol) a bontiodd i addysg bellach yn 2017/18".

Byddai'r cynnig diwygiedig fel a ganlyn:

Mae system addysg deg yn sicrhau nad yw anfantais economaidd nac anabledd yn rhwystrau rhag gallu cyrchu addysg briodol.

Mae'r Cyngor hwn:

- yn cymeradwyo'r nod corfforaethol i leihau'r bwlch o ran deilliannau a chyfleoedd addysgol;
- yn nodi'r cynnydd yn nifer y disgyblion o 27,789 yn 2010 i 33,469 ym mis Ionawr 2017;
- yn nodi y bydd y galw am lefydd cyfrwng Saesneg adeg mynediad ysgol uwchradd yn fwy na nifer y llefydd erbyn mis Medi 2019; a'r galw am lefydd Cymraeg adeg mynediad uwchradd yn fwy na nifer y llefydd erbyn mis Medi 2021;
- yn nodi'r wasgfa bresennol ar yr ystâd ysgolion ac na lwyddodd bron i 20% o ddisgyblion sicrhau unrhyw un o'u tri dewis cyntaf ar gyfer llefydd ysgol uwchradd yn 2016/17;
- yn nodi fod y bwlch cyrhaeddiad adeg Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer y plant hynny sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim yn 33.7 yn 2017.
- yn cydnabod bod teuluoedd sydd â'r modd economaidd i wneud hynny yn gallu symud o fewn dalgylchoedd fel ag i allu sicrhau llefydd mewn ysgolion sydd

wedi eu gordanysgrifio, gan arwain at erydu cydlynad cymunedol ac o bosib lledu'r bwch parthed deilliannau a chyfleoedd addysgol.

Mae'r Cyngor yn galw ar y weinyddiaeth i:

1. Gwblhau ymarferiad ariannol fel rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb ac er mwyn bwydo'r drafodaeth ar y gyllideb, a chyfrifo:
 - a. effaith cynnig cludiant ysgol uwchradd am ddim i unrhyw un sy'n byw dros 2.5 milltir o'u hysgol uwchradd;
 - b. Cost arfaethedig ailgyflwyno darpariaeth cludiant yn ôl disgrisiwn i oedolion ifanc ag anableddau dysgu neu gorfforol mewn addysg 16-19 oed, fel ag a ganiateir yn Adran 6 Gorchymyn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Bydd hyn yn cynnwys pobl ifanc rhwng 16 ac 19 oed sy'n trosglwyddo i sefydliad addysg bellach cydnabyddedig y gwrthodwyd cludiant iddynt o ganlyniad i gael gwared ar y gwasanaeth fesul tipyn yn rhan o bolisi trafndiaeth 2015.
2. I Ddwyn gerbron cyfarfod y cyngor fis Tachwedd amlinelliad manwl o sut y bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg llefydd ar y gorwel agos yn ysgolion uwchradd presennol y ddinas.
3. Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd, cyflwyno datrysiaid manwl o sut y bydd yn gwyrddroi ar unwaith y penderfyniad i dynnu cyllid yn ôl ar gyfer plant ag anableddau (nad ydynt yn gallu manteisio ar y cynllun cludiant bws i'r ysgol) a bontiodd i addysg bellach yn 2017/18.

Diwygiad 2:

Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Sarah Merry
Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Lee Bridgeman

Pwynt bwled 1 – ychwanegu'r geiriau canlynol ar ôl cyfleoedd 'ac yn cymeradwyo dyhead Uchelgais Prifddinas a Caerdydd 2020'

Ychwanegu pwynt Bwled 2 newydd

- *Nodi gwelliant o ran canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (efsm) yng Nghaerdydd rhwng 2012 a 2016 gan gynnwys gwelliant o 16% o ran disgyblion efsm yn cyflawni dangosydd Deilliant y Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd blwyddyn 2, gwelliant o 14.5% o ran disgyblion efsm yn cyflawni'r CSI ar ddiwedd blwyddyn 6, gwelliant o 17.8% o ran disgyblion efsm yn cyflawni CSI ar ddiwedd blwyddyn 9 a gwelliant o 19% yn nifer y disgyblion efsm yn cyflawni lefel 2+ ar ddiwedd blwyddyn 11 rhwng 2012-16. Aeth Caerdydd o fod yn is na chyfartaledd Cymru i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru o ran bob un o'r dangosyddion hyn.*

Daw Pwynt Bwled 2 yn Bwynt Bwled 3

Diwygio ail linell Pwynt Bwled 3 drwy ddileu 27,789 a nodi 28,450 yn lle hynny, a dileu 22 469 gan nodi 34,078 yn lle hynny

Pwynt Bwled 3 ar ôl Ionawr 2017, ychwanegu "y canlynol ac ymhellach nodir y gwelliant o ran deilliannau ar gyfer disgyblion efsm a ddigwyddodd wrth i nifer y disgyblion gynyddu a safonau godi ar y cyfan. Rydym yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed gan staff ac ysgolion yn ogystal â'r AALI a'r consortiwm.

Pwynt Bwled 4 – ychwanegu'r canlynol ar ôl mis Medi 2021.

Ymhellach, nodir bod y cabinet wedi cydnabod yn glir yr heriau sy'n wynebu ein hystâd ysgol yn y papur "Datblygu ein Hystâd Ysgol" a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Hydref.

Pwynt 5 - dileu popeth a'i ddisodli gyda

- *Nodir, er gwaethaf y cynnydd yn nifer y ceisiadau i ysgolion uwchradd o 2476 yn 2016 i 2604 yn 2017, cafwyd gostyngiad yng nghanran y plant nad ydynt yn cael cynnig lle mewn ysgol gymunedol o 14.5% i 10.8%. Hefyd, nodwn mai dim ond 66 o ddisgyblion (2.5% o gyfanswm nifer yr ymgeiswyr) y gwrthodwyd pob un o'u 3 dewis. Credwn fod hyn yn adlewyrchu gwaith Cyngor Caerdydd yn rhoi gwybodaeth i rieni a'r newidiadau yn y broses ymgeisio.*

Pwynt 6 - dileu popeth a'i ddisodli gyda

- *Nodir, yn 2017, 30.8% oedd perfformiad disgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim yng Nghaerdydd o ran trothwy Lefel 2+ Cyfnod Allweddol 4 (5 TGAU A*-C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg), o'i gymharu â 26.8% ar draws Consortiwm Canolbarth y De. Fodd bynnag, nodwn mai 33.7ppt oedd y bwlch cyrhaeddiad ar gyfer trothwy Lefel 2+ Cyfnod Allweddol 4: mae culhau'r bwlch yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Gyngor Caerdydd.*

Dileu pwynt bwled 7 a'i ddisodli gyda

- *Cydnabod pwysigrwydd darparu addysg o safon dda yn gyson ar draws y ddinas a phwysigrwydd rhannu arfer da wrth gulhau'r bwlch cyrhaeddiad. Rydym yn cydnabod nad yw canlyniadau arholiadau'n mesur perfformiad "gwerth ychwanegol" ysgolion ac rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd herio ysgolion o ran sut maent yn cyflawni ar gyfer eu disgyblion*

Dileu'r cyfan ar ôl Y Cyngor hwn, a'i ddisodli gyda

- (i) *Yn galw ar yr Ysgrifennydd Cabinet Kirsty Williams i wneud cyhoeddiad cyn gynted â phosib o ran rhoi cyllid i ysgolion o dan Fand B a derbyn yn llawn ein cyflwyniad i alluogi Cyngor Caerdydd i gyflwyno cynlluniau i fynd i'r afael â phroblemau o fewn yr ystâd ysgol sy'n cynnwys yr angen i gynnig mwy o leoedd ysgol, cyflwr ein hadeiladau ysgol a bodloni anghenion disgyblion ag ADY;*

- (ii) *Penderfynu ysgrifennu ar yr Ysgrifennydd Cabinet yn gofyn i Lywodraeth Cymru i roi ystyriaeth i ba un a ellid darparu cyllid ychwanegol ar gyfer cludiant ysgol i ddisgyblion sy'n byw mwy na 2.5 milltir o'u hysgol uwchradd;*
- (iii) *Gofyn i'r weinyddiaeth gyflwyno cynlluniau i fynd i'r afael â'r materion a amlinellwyd yn "Datblygu ein Hystâd Ysgol" pan fydd canlyniad Band B yn hysbys a phan fo amser wedi bod i ystyried yn llawn sut orau y byddwn yn bodloni anghenion y dyfodol.*

Byddai'r cynnig diwygiedig fel a ganlyn:

Mae system addysg deg yn sicrhau nad yw anfantais economaidd yn rhwystr rhag gallu cyrchu addysg briodol.

Mae'r Cyngor hwn:

- yn cymeradwyo'r nod corfforaethol i gulhau'r bwch o ran deilliannau addysgol a chyfluoedd a chymeradwyo dyhead Uchelgais Prifddinas a Caerdydd 2020.
- Nodi gwelliant o ran canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (efsm) yng Nghaerdydd rhwng 2012 a 2016 gan gynnwys gwelliant o 16% o ran disgyblion efsm yn cyflawni dangosydd Deilliant y Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd blwyddyn 2, gwelliant o 14.5% o ran disgyblion efsm yn cyflawni'r CSI ar ddiwedd blwyddyn 6, gwelliant o 17.8% o ran disgyblion efsm yn cyflawni CSI ar ddiwedd blwyddyn 9 a gwelliant o 19% yn nifer y disgyblion efsm yn cyflawni lefel 2+ ar ddiwedd blwyddyn 11 rhwng 2012-16. Aeth Caerdydd o fod yn is na chyfartaledd Cymru i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru o ran bob un o'r dangosyddion hyn.
- Yn nodi'r cynnydd yn nifer y disgyblion o 28,450 yn 2010 i 34,078 ym mis Ionawr 2017 ac ymhellach, yn nodi fod y gwelliant o ran deilliannau ar gyfer disgyblion efsm wedi digwydd wrth i nifer y disgyblion gynyddu a safonau godi ar y cyfan. Rydym yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed gan staff ac ysgolion yn ogystal â'r AALI a'r consortiwm.
- yn nodi y bydd y galw am lefydd cyfrwng Saesneg adeg mynediad ysgol uwchradd yn fwy na nifer y llefydd erbyn mis Medi 2019; a'r galw am lefydd Cymraeg adeg mynediad uwchradd yn fwy na nifer y llefydd erbyn mis Medi 2021. Ymhellach, yn nodi bod y cabinet yn llwyr gydnabod yr heriau ynghlwm wrth ein hystâd ysgol yn y papur "Datblygu ein Hystâd Ysgol" a gyflwynwyd i'r cabinet ym mis Hydref.
- Nodir, er gwaethaf y cynnydd yn nifer y ceisiadau i ysgolion uwchradd o 2476 yn 2016 i 2604 yn 2017, cafwyd gostyngiad yng nghanran y plant nad ydynt yn cael cynnig lle mewn ysgol gymunedol o 14.5% i 10.8%. Hefyd, nodwn mai dim ond 66 o ddisgyblion (2.5% o gyfanswm nifer yr ymgeiswyr) y gwrthodwyd pob un o'u 3 dewis. Credwn fod hyn yn adlewyrchu gwaith Cyngor Caerdydd yn rhoi gwybodaeth i rieni a'r newidiadau yn y broses ymgeisio.

- Nodir, yn 2017, 30.8% oedd perfformiad disgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim yng Nghaerdydd o ran trothwy Lefel 2+ Cyfnod Allweddol 4 (5 TGAU A*-C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg), o'i gymharu â 26.8% ar draws Consortiwm Canolbarth y De. Fodd bynnag, nodwn mai 33.7ppt oedd y bwlch cyrhaeddiad ar gyfer trothwy Lefel 2+ Cyfnod Allweddol 4: mae culhau'r bwlch yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Gyngor Caerdydd.
- Cydnabod pwysigrwydd darparu addysg o safon dda yn gyson ar draws y ddinas a phwysigrwydd rhannu arfer da wrth gulhau'r bwlch cyrhaeddiad. Rydym yn cydnabod nad yw canlyniadau arholiadau'n mesur perfformiad "gwerth ychwanegol" ysgolion ac rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd herio ysgolion o ran sut maent yn cyflawni ar gyfer eu disgyblion

Mae'r Cyngor hwn:

- (i) Yn galw ar yr Ysgrifennydd Cabinet Kirsty Williams i wneud cyhoeddiad cyn gynted â phosib o ran rhoi cyllid i ysgolion o dan Fand B a derbyn yn llawn ein cyflwyniad i alluogi Cyngor Caerdydd i gyflwyno cynlluniau i fynd i'r afael â phroblemau o fewn yr ystâd ysgol sy'n cynnwys yr angen i gynnig mwy o leoedd ysgol, cyflwr ein hadeiladau ysgol a bodloni anghenion disgyblion ag ADY;
- (ii) Yn penderfynu ysgrifennu i'r Ysgrifennydd Cabinet yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth i ba un a ellid rhoi cyllid ar gyfer cludiant ysgol i ddisgyblion sy'n byw mwy na 2.5 milltir o'u hysgol uwchradd;
- (iii) Gofyn i'r weinyddiaeth gyflwyno cynlluniau i fynd i'r afael â'r materion a amlinellwyd yn "Datblygu ein Hystâd Ysgol" pan fydd canlyniad Band B yn hysbys a phan fo amser wedi bod i ystyried yn llawn sut orau y byddwn yn bodloni anghenion y dyfodol.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig. Ar ddiwedd y drafodaeth gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cyngorydd Rhys Taylor i grynhoi. Wrth grynhoi, cadarnhaodd y Cyngorydd Taylor ei fod yn derbyn Diwygiad 1.

Dywedodd yr Arglwydd Faer, fel y derbyniwyd Diwygiad 1, mai dyma'r hysbysiad o gynnig arfaethedig gan y Cyngorydd Rhys Taylor.

Gofynnodd yr Arglwydd Faer i gael pleidlais ar Ddiwygiad 2 gan y Cyngorydd Merry.

ENILLWYD y bleidlais

Rhodd y Cyngorydd Merry yr hawl i ateb cyn pleidleisiwyd ar yr Hysbysiad o Gynnig.

DERBYNIWYD y Cynnig fel a ganlyn:

Mae system addysg deg yn sicrhau nad yw anfantais economaidd yn rhwystr rhag gallu cyrchu addysg briodol.

Mae'r Cyngor hwn:

- yn cymeradwyo'r nod corfforaethol i gulhau'r bwlch o ran deilliannau addysgol a chyfleoedd a chymeradwyo dyhead Uchelgais Prifddinas a Caerdydd 2020.
- Nodi gwelliant o ran canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (efsm) yng Nghaerdydd rhwng 2012 a 2016 gan gynnwys gwelliant o 16% o ran disgyblion efsm yn cyflawni dangosydd Deilliant y Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd blwyddyn 2, gwelliant o 14.5% o ran disgyblion efsm yn cyflawni'r CSI ar ddiwedd blwyddyn 6, gwelliant o 17.8% o ran disgyblion efsm yn cyflawni CSI ar ddiwedd blwyddyn 9 a gwelliant o 19% yn nifer y disgyblion efsm yn cyflawni lefel 2+ ar ddiwedd blwyddyn 11 rhwng 2012-16. Aeth Caerdydd o fod yn is na chyfartaledd Cymru i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru o ran bob un o'r dangosyddion hyn.
- Yn nodi'r cynnydd yn nifer y disgyblion o 28,450 yn 2010 i 34,078 ym mis Ionawr 2017 ac ymhellach, yn nodi fod y gwelliant o ran deilliannau ar gyfer disgyblion efsm wedi digwydd wrth i nifer y disgyblion gynyddu a safonau godi ar y cyfan. Rydym yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed gan staff ac ysgolion yn ogystal â'r AALI a'r consortiwm.
- Yn nodi y bydd y galw am lefydd cyfrwng Saesneg adeg mynediad ysgol uwchradd yn fwy na nifer y llefydd erbyn mis Medi 2019; a'r galw am lefydd Cymraeg adeg mynediad uwchradd yn fwy na nifer y llefydd erbyn mis Medi 2021. Ymhellach, yn nodi bod y cabinet yn llwyr gydnabod yr heriau ynghlwm wrth ein hystâd ysgol yn y papur "Datblygu ein Hystâd Ysgol" a gyflwynwyd i'r cabinet ym mis Hydref.
- Yn nodi er gwaethaf y cynnydd yn nifer y ceisiadau i ysgolion uwchradd o 2476 yn 2016 i 2604 yn 2017, cafwyd gostyngiad yng nghanran y plant nad ydynt yn cael cynnig lle mewn ysgol gymunedol o 14.5% i 10.8%. Hefyd, nodwn mai dim ond 66 o ddisgyblion (2.5% o gyfanswm nifer yr ymgeiswyr) y gwrthodwyd pob un o'u 3 dewis. Credwn fod hyn yn adlewyrchu gwaith Cyngor Caerdydd wrth roi gwybodaeth i rieni a'r newidiadau i'r broses ymgeisio.
- Yn nodi, yn 2017, 30.8% oedd perfformiad disgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim yng Nghaerdydd o ran trothwy Lefel 2+ Cyfnod Allweddol 4 (5 TGAU A*-C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg), o'i gymharu â 26.8% ar draws Consortiwm Canolbarth y De. Fodd bynnag, nodwn mai 33.7ppt oedd y bwlch cyrhaeddiad ar gyfer trothwy Lefel 2+ Cyfnod Allweddol 4: mae culhau'r bwlch yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Gyngor Caerdydd.
- Cydnabod pwysigrwydd darparu addysg o safon dda yn gyson ar draws y ddinas a phwysigrwydd rhannu arfer da wrth gulhau'r bwlch cyrhaeddiad. Rydym yn cydnabod nad yw canlyniadau arholiadau'n mesur perfformiad "gwerth ychwanegol" ysgolion ac rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd herio ysgolion o ran sut maent yn cyflawni ar gyfer eu disgyblion

Mae'r Cyngor hwn:

- (i) Yn galw ar yr Ysgrifennydd Cabinet Kirsty Williams i wneud cyhoeddiad cyn gynted â phosib o ran rhoi cyllid i ysgolion o dan Fand B a derbyn yn llawn ein cyflwyniad i alluogi Cyngor Caerdydd i gyflwyno cynlluniau i fynd i'r afael â phroblemau o fewn yr ystâd ysgol sy'n cynnwys yr angen i gynnig mwy o leoedd ysgol, cyflwr ein hadeiladau ysgol a bodloni anghenion disgyblion ag ADY;
- (ii) Yn penderfynu ysgrifennu i'r Ysgrifennydd Cabinet yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth i ba un a ellid rhoi cyllid ar gyfer cludiant ysgol i ddisgyblion sy'n byw mwy na 2.5 milltir o'u hysgol uwchradd;

Gofyn i'r weinyddiaeth gyflwyno cynlluniau i fynd i'r afael â'r materion a amlinellwyd yn "Datblygu ein Hystâd Ysgol" pan fydd canlyniad Band B yn hysbys a phan fo amser wedi bod i ystyried yn llawn sut orau y byddwn yn bodloni anghenion y dyfodol.

78 : CWESTIYNAU LLAFAR

CWESTIWN – CYNGHORYDD SIR COWAN

A fydd yr Aelod Cabinet yn rhoi gwybod pam mae problemau parhaus â chyflenwi bagiau gwyrdd yng Ngogledd Caerdydd?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw broblemau cyflenwi bagiau gwyrdd yng Ngogledd Caerdydd neu unman arall yn y ddinas. Mae'r holl gyflenwyr wedi derbyn eu cyflenwadau cywir, ond gadewch i mi wybod os ydych yn ymwybodol o unrhyw broblemau penodol.

Gall preswylwyr archebu ar-lein, dros y ffôn, llenwi'r sticer oren ar y bagiau neu ffonio eu hyb lleol i gael ailgyflenwad.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR COWAN

Rwyf wedi bod yma 18 mlynedd ac mae'n rhaid i mi ddweud fy mod wedi synnu wrth ymateb y Cyngorydd Michael. Rydych yn llwyr ymwybodol o'r problemau, cawsoch eich copio i gadwyn hir iawn o negeseuon Facebook sy'n nodi bod problemau o ran diffyg cyflenwad yng Nghanolfan Maes-y-coed, llyfrgell Rhiwbeina a Siopau Deri, felly rwyf wedi drysu eich bod yn dweud nad oes problem.

Y cwestiwn yw, gan fod nifer o breswylwyr wedi dweud bod angen iddynt naill ai roi bag gwyrdd arall am yr un gwreiddiol neu ddefnyddio mwy oherwydd yr ansawdd salach yn y blynyddoedd diwethaf, onid yw hyn yn economi ffug?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Credaf fod rhywfaint o ddryswch yma. Nid yw nodi rhywbeth ar Facebook yr un fath â ffinio neu anfon e-bost ataf i neu at swyddogion. Os nad ydym yn derbyn y wybodaeth hon, nid ydym yn gwybod bod problem.

O ran ansawdd y bagiau, efallai y cewch eich synnu'n fawr o ddysgu mai bagiau ar gyfer gwastraff ailgylchu ydynt; o fewn diwrnod maent mewn CAD lle y cânt eu rhwygo, felly'r peth diwethaf ydych chi eisiau yw bagiau gwyrdd o ansawdd da sy'n mynd i gael eu rhwygo a thagu'r system. Rwy'n fwy na bodlon i fynd â chi i ddangos beth sy'n digwydd i'r bagiau gwyrdd hyn. Cânt eu rhwygo, yna eu hailgylchu.

Ond yn ôl at eich pwynt gwreiddiol, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw broblemau, nid yw'r swyddogion yn ymwybodol o unrhyw broblemau. Os dymunech anfon e-bost ataf i neu at y swyddogion, yna byddem yn gwybod am y peth.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR BERMAN

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ar 4 Hydref, cytunodd un o gynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru â mi, y gall cynnwys cronfa wrth gefn gyffredinol yn rhan o gyllideb y cyngor fel rhwyd ddiogelwch i dalu am orwariant ar gyfer arbedion cynlluniedig na cânt eu cyflawni, arwain at y cyngor yn llai trylwyr wrth geisio cyflawni'r arbedion hynny, felly o bosib yn lleihau'r tebygolrwydd y cânt eu cyflawni. Felly, a wnewch chi felly gydnabod defnyddio cronfa wrth gefn gyffredinol o'r fath yn rhan o gyllidebau'r dyfodol?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR WEAVER

Yn gyntaf, mae'n rhaid i mi gytuno â chi, ac mae disgyblaeth ariannol yn gwbl angenrheidiol wrth sicrhau ein bod yn cyflawni arbedion ac yn gwneud cynnydd i gyflawni'r arbedion hynny drwy'r flwyddyn, cânt eu monitro'n agos gan uwch reolwyr a'r Cabinet a'u herio drwy'r flwyddyn er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud hynny. Ychydig o gefndir i chi ynglŷn â'r gronfa wrth gefn y gwnaethoch ofyn amdani, bu'n rhaid i'r Cyngor nodi a gwneud mwy na £200 miliwn o arbedion dros y degawd diwethaf, y mae mwy na £100m ohonynt wedi'u gwneud yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Disgwylir gwneud arbedion gwerth mwy na £70 miliwn dros y tair blynedd nesaf.

Gan gymryd i ystyriaeth y ffaith bod Caerdydd ar ben isaf y sbectrwm o ran arian wrth gefn cyffredinol – mae'r £3 miliwn wrth gefn cyffredinol yn rhan bwysig o wydnwch ariannol y Cyngor. Er hynny mae bob amser yn cael ei adolygu; y llynedd gostyngwyd y swm o 25% o £4 miliwn i £3 miliwn, bydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn y caiff cyllidebau eu pasio, dyna'r cefndir a dyna'r gwydnwch ariannol a'i bwysigrwydd yn hynny o beth.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR BERMAN

Clywsom gan Swyddfa Archwilio Cymru am un Awdurdod a ddilëwyd cronfa wrth gefn o'r fath ac felly wedi cael llwyddiant gwell wrth gyflawni ei arbedion yn dilyn hynny.

A fydddech chi'n derbyn, drwy gadw cronfa wrth gefn gwerth £3 miliwn, yn effeithiol fel awdurdod efallai y buom yn cynyddu'r Dreth Gyngor yn fwy nag sy'n rhaid a hefyd yn ei gwneud hi'n fwy tebygol o bosib ein bod yn mynd i drafferthion ariannol y flwyddyn ganlynol?

Rwy'n ddiolchgar eich bod chi'n mynd i'w adolygu, ond a ydych chi'n derbyn y gallem fod yn fwy disgybledig yn ariannol pe byddem yn cael gwared ar y gronfa?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR WEAVER

Nid wyf yn derbyn hynny o gwbl. Un sylw am un awdurdod oedd hwnnw, a roddwyd yn anecdotaidd. Cyn belled ag y gwyddom, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi cyngor ar yr hyn sy'n well o ran cyflawni eich arbedion ariannol neu eich gwydnwch ariannol. Heb wybod beth yw cefndir yr Awdurdod hwnnw o ran faint o arian wrth gefn sydd ganddo, faint o arbedion mae'n rhaid iddo ei wneud, ei gynllunio ariannol cyffredinol ac ati, ni allwn ddweud yn onest pa un a yw hyd yn oed yn debyg i Caerdydd, ond byddwn yn hapus i glywed mwy am yr Awdurdod penodol hwnnw. Byddaf yn dweud bod rhaid i ni gydnabod yr ansicrwydd amlwg sy'n dal i fodoli. Caiff y gyllideb ei phennu yn San Steffan ym mis Tachwedd, a byddwn yn clywed y penderfyniad terfynol yma ym mis Rhagfyr. Mae'r llanast ag yw'r trafodaethau Brexit parhaus, nid oes gennym syniad beth fydd y sefyllfa o ran cyllidebu cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf a chredaf fod yn rhaid i ni wneud penderfyniadau yn ddarbodus pan fyddwn yn ystyried ein cyllidebau.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD SIR ROBSON

Credaf fod gan y Cyngorydd Berman bwynt pwysig yma, sef yn ystod 4/5 mlynedd diwethaf rheolaeth Llafur mae rhwng £12 miliwn ac £16 miliwn o gronfeydd cyllideb wrth gefn wedi bod a chredaf fod hynny'n gywilyddus gan y Cyngor hwn. Rwyf wedi dweud hyn sawl gwaith yn y Siambr hon – rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith eich bod newydd gymryd cyfrifoldeb dros y portffolio – ond pan fyddwch yn ei adolygu fel y gwnaethoch amlinellu y byddwch yn ei wneud, a fyddwch chi'n ystyried tynnu'r arian hwnnw oddi ar gyfradd y Dreth Gyngor, gan fod cynnydd arfaethedig o 3.7% yn rhy uchel?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR WEAVER

Mae'n rhaid cyfiawnhau bob elfen o gyllideb, ac mae'n rhaid i ni deimlo'n hyderus ei bod yn gywir. Byddaf yn tynnu sylw at y ffaith bod rhai o'r meysydd gorwariant sydd gennym yn feysydd a wynebir gan lawer o awdurdodau lleol eraill, Gwasanaethau Plant, Addysg ac yng Nghaerdydd eleni rydym wedi gweld gorwariant mewn cysylltiad â'r Cyfleuster Ailgyrchu Deunyddiau. Effeithir ar y rhai hynny i gyd gan ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor ac mae rhan o'r gronfa wrth gefn honno yn rhoi inni yr hyder sy'n golygu y gallwn fynd i'r afael â hynny yn ystod y flwyddyn heb wneud toriadau sylweddol i wasanaethau y mae pobl wirioneddol yn dibynnu arnynt. Mae'n rhaid i ni gael y cydbwysedd hynny o ran pa un a yw hyn yn

rhoi mwy o hyblygrwydd i ni amddiffyn gwasanaethau a mynd i'r afael â'r ffactorau allanol hynny a'r elfennau annisgwyl hynny y gwyddom a fydd yn effeithio ar awdurdod o'r maint hwn.

Fel erioed, craffir yn drylwyr iawn ar y gyllideb bob blwyddyn yn ystod pum mlynedd y weinyddiaeth hon, ac wrth gwrs wrth i dystiolaeth newid, mae gan bawb hawl i newid eu barn, ond mae'n rhaid i mi ddweud, hyd yn hyn, bu rheswm da dros gael y llinell honno a dylem fod yn ofalus iawn am yr hyn a newidiwn mewn perthynas â hi.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR GORDON

Pa gynlluniau sydd gan y Cyngor i fonitro a lleihau cyflymderau traffig yn y parth 20mya ym Mhontcanna a Glan-yr-afon?

YMATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD

Pan weithredir y parth 20mya o'r diwedd yn Nhreganna a Glan-yr-afon, bydd ymgyrch gyfathrebu proffil uchel ynghylch cyflymderau. Gwn fod swyddogion SCCH wedi bod yn mynd i rai o'r ardaloedd fwyaf problemus yn y cyfamser ond yn amlwg rydym eisïau gweld pa mor llwyddiannus yw'r parthau 20mya cyn i ni ystyried pa un a oes angen i ni liniaru mwy o ran hynny.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR GORDON

Ar y cam hwn, tybed a allem ni wneud ymdrech i godi ymwybyddiaeth o'r cyfyngiad 20mya drwy ysgrifennu at y gyrwyr i gyd sy'n gyrru o amgylch yr ardal, megis y cwmnïau bysus, y cwmnïau coetsys, y cwmnïau tacsis a'r cerbydau dosbarthu? A fyddai modd i'r Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a Chynllunio ysgrifennu at yr holl gwmnïau hyn a rhoi gwybod iddynt fod yna barth 20mya yng Nglan-yr-afon a Threganna ac efallai y byddai hynny'n fan cychwyn da i bennu'r cyflymder fel petai ar gyfer y gyrrwr preifat cyffredin?

YMATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD

Credaf fod hynny'n syniad gwych a byddaf yn sicr yn gwneud hynny. O ran hynny, gwnaethom gwrdd â Bws Caerdydd yr wythnos yma a chodi'r mater hwnnw'n benodol gyda nhw ac rwyf hefyd wedi gofyn i'r Cyngorydd Parry a gaf i siarad â'r gyrwyr tacsï, ac rwy'n gobeithio siarad â nhw yr wythnos nesaf, nifer o'r cwmnïau tacsï beth bynnag, am hynny, ond mae'r syniadau hynny'n wych a byddaf yn sicrhau bod llythyr yn cael ei anfon atynt.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR NAUGHTON

Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â'r un peth, ond yng nghyd-destun Pentwyn a Llanedern. Beth gall yr Aelod Cabinet ei wneud am gyfyngiadau 20mya yn fy ward i?

YMATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD

Y cynllun ar hyn o bryd yw cyflwyno parthau 20mya ar draws canol y Ddinas. Mae cynllun ar gyfer hynny dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, cyn inni ystyried ehangu.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR WILLIAMS

Mae parcio a thagfeydd yn fy Ward i, sef Pontpennau a Phentref Llanelwyr eisoes ar lefelau anghynnaladwy. Mae angen gwella parcio o gwmpas Ysgol Gynradd Pontpennau ar frys.

Cytunodd y Cyngor i weithredu cynlluniau ar gyfer bws cerdded i liniaru pwysau parcio o gwmpas Ysgol Gynradd Pontpennau. A all yr Aelod Cabinet roi diweddariad ar y bws cerdded ar gyfer Ysgol Gynradd Pontpennau a'r camau a gymerir i wella'r tagfeydd gan fod nifer o deithwyr yn defnyddio Heol Pontpennau fel ffordd drwodd i gyrraedd yr M4 ac Eastern Avenue, gan ychwanegu at bwysau tagfeydd?

YMATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD

Diolch eto am yr ymweliad. Des i weld yr ysgol dan sylw gyda chi, er mwyn profi rhai o'r problemau a wynebir yno. Cyfrifoldeb ysgolion unigol yn bennaf yw trefnu bws cerdded, ond mae swyddogion wedi cwrdd â'r ysgol ac wedi nodi llwybrau ac ardaloedd gollwng plant addas, ac mae hynny wedi cynnwys cynnal asesiad risg.

Mae angen i'r ysgol nodi a chael rhieni i wirfoddoli er mwyn bwrw ymlaen â'r Bws Cerdded. Byddant y rheini hyn yn cael eu cefnogi drwy hyfforddiant ac arweiniad priodol.

Mae swyddogion hefyd wedi siarad yn ddiweddar am ddiogelwch ar y ffyrdd mewn gwasanaeth ysgol gyfan yn rhan o'u gwaith i helpu i godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddiogelwch ar y ffyrdd.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR WILLIAMS

Credaf y bydd preswylwyr a rhieni ym Mhontpennau yn falch â'r ymateb hwnnw. Mae'n braf gwybod bod y Cyngor yn llwyr gefnogi'r ysgol wrth geisio cyflawni bws cerdded.

Roedd yna ail ran i'm cwestiwn i chi hefyd, sef – beth mae'r Cyngor yn ei wneud i wella tagfeydd a'r cerbydau sy'n defnyddio Heol Pontpennau fel ffordd drwodd i gyrraedd Eastern Avenue a'r M4?

Mae cryn dipyn o geir yn teithio drwy'r gymuned sy'n golygu ei bod hi'n eithaf peryglus, felly beth yw eich cynlluniau i wella hynny?

YMATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD

Rydym yn gwneud llawer o bethau gwahanol o ran trafndiaeth, ac mae bws cerdded yn un o'r pethau hynny. Fel y gwyddoch, rydym yn gweithio ar y gyfnewidfa yno er mwyn ceisio cynyddu gwasanaethau sy'n agos iawn ati yn ogystal â'r holl bethau gwahanol yr ydym yn ceisio eu gwneud i wella gwasanaethau bws a llwybrau beicio.

Gwn hefyd fod swyddogion yn cwrdd â'r parc busnes yno ynghylch ceisio disodli rhywfaint o'r parcio ac annog pobl i ddefnyddio'r gyfnewidfa yn hytrach na pharcio yno.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR MOLIK

Mae fy mhryder i yn ymwneud ag ysgol gynradd yn fy ward, sef Ysgol Gynradd Lakeside, sydd wedi'i lleoli yng nghanol ffyrdd cul. Ond wrth deithio i'r ysgol, mae'r plant yn croesi Celyn Avenue, Lakeside Drive neu Cefn Coed, sy'n ffyrdd eang a phrysur. Gallai fod yn eithaf peryglus i blant ifanc sy'n teithio i'r ysgol. Nid oes unrhyw groesfan ddiogel o gwmpas yr ysgol honno, ac ni cheir unrhyw arwyddion clir yn nodir bod yr ysgol yno. Hoffwn ofyn i'r Cyngorydd Wild a yw'n fodlon cydweithio â fi i fynd i'r afael â'r broblem hon yn fy ward i a gwneud y llwybr yn ddiogelach i blant sy'n teithio i Ysgol Gynradd Lakeside?

YMATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD

Yn sicr, mae'n swnio fel blaenoriaeth wirioneddol i ni roi sylw i hynny.

CWESTIWN - CYNGHORYDD SIR NAUGHTON

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi sicrwydd y bydd y wybodaeth asesu am ofalwyr pobl ifanc anabl ar gael yn electronig erbyn 2018/19?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR HINCHEY

Gan ddilyn ymlaen o'n sgwrs, rwyf wedi newid rhywfaint ar yr ateb. Ni cheir un diffiniad o 'pobl ifanc' a defnyddir termau amrywiol sy'n cwmpasu grwpiau oedran gwahanol i ddiffinio 'pobl ifanc anabl', o fewn ystod gyffredinol rhwng 16 a 25 oed.

Fodd bynnag, gallaf roi sicrwydd i chi fod gwaith sylweddol ar y gweill ar hyn o bryd i adolygu casglu data a dogfennau cysylltiedig, er mwyn sicrhau y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chasglu a'i chadw'n electronig o 2018/19 ar ein system Care First ar sail ddiogel a chyfrinachol.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR NAUGHTON

Gyda gwybodaeth ar gael yn electronig erbyn 2018/19 gobeithio, a gawn ni wedyn roi'r wybodaeth honno ar-lein, fel ei bod hi'n haws i drigolion Caerdydd gael gafael ar yr wybodaeth?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR HINCHEY

Cewch - gan sicrhau, wrth gwrs, ei bod yn ddiogel ac yn gyfrinachol a'n bod ni'n gweithredu ymarferiad caffael o fath ynghylch y system ofal orau a ddefnyddiwn. Ceir rhaglen Cymru gyfan yn ymwneud â hynny.

Pe byddwn wedi mynd i fwy o fanylder ac wedi ceisio dadansoddi'r wybodaeth, yr wyf yn meddwl yr oeddech chi'n cyfeirio at hynny yn eich Cais Rhyddid Gwybodaeth, byddai wedi cymryd llawer o amser, gwerth mwy na'r cyfyngiad o £450 ar gyfer

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ond rydym bron iawn yno ac rwy'n sicr o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth i ni geisio cyflawni hynny, ond yr ateb uniongyrchol i'ch cwestiwn yw cewch, gobeithio.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR LENT

A ymgynghorwyd â Chyngor Caerdydd ynghylch y mater o waredu 300,000 tonn o waddodion morol ymbelydrol o adweithydd niwclear arfaethedig Bae Bridgewater/Hinkley Point C yn safle gwaredu morol "Tiroedd Bae Caerdydd"?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Ymgynghorwyd â'r Cyngor yn 2013 ynghylch y cais blaenorol am drwydded morol i waredu'r gwaddodion morol yn safle Tiroedd Caerdydd yn Aber Afon Hafren.

Nid ymgynghorwyd â ni ymhellach ynghylch y mater hwn, yn dilyn y Datganiad Ysgrifenedig a gyflwynir i'r Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar 29 Medi.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR LENT

A fyddai'r Cyngor yn cefnogi mesurau i sicrhau y cynhelir asesiad llawn o'r effaith amgylcheddol, dadansoddiad ymbelydrol llawn a samplu pwll dan nawdd Cyfoeth Naturiol Cymru cyn y rhoddir caniatâd i waredu unrhyw waddodion Hinkley Point ar diroedd Bae Caerdydd.

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Byddwn yn disgwyl bod popeth yr ydych wedi gofyn amdano yn rhan o'r cais am drwydded, yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i gael y drwydded er mwyn cyflawni'r hyn y mae angen iddynt ei wneud. Nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i wneud hyn, mater i Gyfoeth Naturiol Cymru yw hyn.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR WILLIAMS

Bydd y Cyngorydd Michael wrth gwrs yn ymwybodol, pan ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch hyn, gwnaethon nhw benderfynu aros yn niwtral.

O ystyried y sylwadau a wnaed gan y Cyngorydd Lent, rwy'n awyddus i glywed barn y Cyngorydd Michael ar ba un a yw'n cefnogi Llywodraeth Cymru o ran eu penderfyniad i aros yn niwtral ynghylch gwaredu 300,000 tonn o waddodion morol ymbelydrol ar diroedd Bae Caerdydd. Beth mae'n feddwl o farn Llywodraeth Cymru?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Credaf fod rhywfaint o ddryswch, a ffolineb yn hyn o beth. Mae ymbelydredd ym mhob man, nid dim ond yn mwd hwn. Mae'n mhob man ar draws y byd, mae' sylwedd naturiol, felly nid yw'n anghyffredin ac unrhyw ddiwrnod arferol ceir miloedd ar filoedd o dunelli o fwd yn chwyrlio o gwmpas y aber hwnnw gan y llanw. Digwydd

bod, mae hyn yn rhywbeth naturiol, felly mae'r broses o waredu gwaddodion morol yn golygu eu symud o bwynt A i bwynt B.

Mae proses gyfreithiol i gael y drwydded, dilynir y broses hon ar hyn o bryd, ac rwy'n hapus â'r broses gyfreithiol honno.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR HUDSON

Drwy gael gwared ar y cyfleuster i waredu eitemau gwerth uwch y mae modd eu hailgylchu, megis metel sgrap a rwbel, yng CAGC Heol Wedal, beth yw'r effaith ar y safle ac a fydd hyn yn golygu bod y ganolfan yn llai ariannol hyfyw?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Cafwyd gwared ar gyfleusterau gwastraff i waredu gwastraff rwbel a metel sgrap, yn gyfnewid am gyfleusterau i waredu carpedi a matresi, er mwyn cynorthwyo â lleihau lefelau sŵn yn y safle. Ni fydd hyn yn newid hyfywedd ariannol y safle.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR HUDSON

Rwyf eisiau gwybod a roddwyd pwysau ar safle Heol Wedal gan y cymdogion, naill ai'r datblygiad preswyl neu'r cartref gofal, i gael gwared ar yr eitemau hyn, efallai oherwydd y sŵn.

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Cawsom nifer o gwynion ynglŷn â'r sŵn gan amrywiol grwpiau preswyl yno ac roedd CNC yn rhan o hyn, a chynhaliwyd llawer o drafodaethau. Ystyriwyd ei bod hi'n haws cael gwared ar y ddau hyn ac ailgylchu rhywbeth yno na fyddai'n achosi niwsans i'r gymdogaeth, sef yr union beth a wnaethom.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR MOLIK

O ran y lefel sŵn a godwyd gan y trigolion a arweiniodd at y newid hwn mewn gwasanaeth, roedd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu ymhell cyn adeiladu'r llety preswyl. Ai cam tuag at gau Heol Wedal yw hyn?

Os felly, pryd ydych chi'n bwriadu ei gau, ac os byddwch chi yn ei gau, a fydd gennym wasanaeth cwbl weithredol yn rhan ogleddol y Ddinas cyn i hynny ddigwydd.

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Nid yw'r ffaith bod rhywbeth wedi bodoli ers amser hir yn golygu na allwch wneud rhywbeth amdano. Roedd y lefelau sŵn yn eithaf uchel ac rydym wedi gwneud rhywbeth ynghylch hynny.

O ran gweddill Heol Wedal, mae arnaf ofn y bydd rhaid i chi ddisgwyl am fy natganiad.

CWESTIWN – CYNGHORYDD SIR CONGREVE

Mae dyfodol llyfrgelloedd ar draws y ddinas yn bryder i lawer o drigolion. Beth yw ymrwymiad y weinyddiaeth Llafur hon o ran parhau i ariannu'r gwasanaeth amhrisiadwy hwn ac, yn benodol, Llyfrgell Rhydypennau fel enghraifft wych?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THORNE

Mae polisi'r Weinyddiaeth Llafur yn nodi'n glir ein bod yn ymrwymedig i gadw rhwydwaith o lyfrgelloedd ar draws y ddinas.

Rwy'n falch o gadarnhau na fydd unrhyw gyfyngiad cyllidebol arfaethedig yn gysylltiedig â'r llyfrgelloedd cangen annibynnol yn 2018/19, ac mae hyn wrth gwrs yn cynnwys Llyfrgell Rhydypennau.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR CONGREVE

Hoffwn ehangu rhywfaint ar yr hyn y mae Llyfrgell Rhydypennau yn ei ddarparu ar gyfer y gymuned. Cynhaliais fy nghymhorthfa yno ddydd Sadwrn ac yr un pryd, roedd yna grŵp tadau a phlant bach yn mwynhau amser odli ac roeddent yn canu llawer o ganeuon cyfarwydd gan gynnwys *The Wheels on the Bus*, roedd yno hefyd ddeuawd tad a merch a oedd yn chwarae yn y llyfrgell ac roedd pawb yn cyd-ganu ac aelodau'r llyfrgell ar y pryd yn ymuno'n frwd. Hyb llawn gweithgareddau yw hwn, a werthfawrogi yn fawr gan ein trigolion lleol yn y gymuned.

A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch staff gwych Llyfrgell Rhydypennau, a gwneud fel yr ydych yn ei ddweud, sef parhau i ariannu'r gwasanaeth hwn yn llawn, gwasanaeth a werthfawrogi yn fawr iawn gan y trigolion?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THORNE

Cytunaf, siaradais yn ddiweddar yng nghyfarfod y Cyngor gan ddweud fy mod wedi ymweld â'r llyfrgelloedd, gan gynnwys Llyfrgell Rhydypennau, a bod y digwyddiadau a gynhaliwyd yno y diwrnod hwnnw yn anhygoel, mor anhygoel fel bod dagrau'n llifo ar un pwynt. Roedd yno artist a dynnodd braslun ohonof wrth i mi gerdded o gwmpas, ac mae'n rhaid i mi gyfaddef ei fod yr un ffunud. Roedd yna glwb pobl hŷn, sesiwn cyd-ganu, ac roedd wirioneddol yn wych.

Ydy, maen nhw'n gwneud pethau anhygoel fel y maen nhw mewn sawl llyfrgell arall, ac ydyn, mae nhw wrth wraidd y gymuned a dyna pam ein bod ni eisiau eu hamddiffyn.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR COWAN

Yn amlwg, ni chawsom gyfle yn gynharach pan na wnaethoch ymateb, felly mae hyn ar ran y Cyngorydd Joel Williams, Oliver Owen a minnau.

Yn eich maniffesto, nodwyd ymrwymiad i bob llyfrgell ac erbyn hyn rydych yn siarad am rwydwaith o lyfrgelloedd, a wnewch chi egluro a yw hynny yr un peth? Hefyd nid ydych wedi sôn am lyfrgelloedd symudol o gwbl.

Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â chydweithwyr yn y Cabinet am ddyfodol llyfrgelloedd ac a wnewch chi ymrwymo heddiw y cânt eu hamddiffyn drwy gydol y weinyddiaeth hon?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THORNE

Tybiaf mai'r ateb yw 'gwnawn', credaf fy mod wedi crybwyll yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor ein bod hi'n ystyried ffyrdd arloesol o sicrhau ein bod ni'n amddiffyn y gwasanaethau hynny ym mhob ardal, a dyna beth yr ydym yn ei wneud. Fwy na thebyg bydd arbedion neu incwm o hynny, ond mae'n golygu y byddwn ni'n gallu amddiffyn yr holl wasanaethau llyfrgell a'r holl lyfrgelloedd annibynnol. Dyna ein hymrwymiad ers cychwyn y weinyddiaeth hon, a bydd yn parhau i fod hefyd.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR BURKE-DAVIES

Bu Hanner Marathon Caerdydd yn llwyddiant ysgubol unwaith eto ar gyfer y ddinas a phawb a gymerodd ran. Er hynny, cysylltodd trigolion Ystum Taf â mi mewn rhwystredigaeth am na chafodd ein biniau cyhoeddus, yn enwedig y rhai hynny ar Station Road, eu casglu ddydd Sul 1 Hydref. A all yr Aelod Cabinet ymrwymo na fydd digwyddiadau mawr yng Nghaerdydd yn effeithio ar amllder y casgliadau gwastraff yn Wardiau allanol y ddinas?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THORNE

Nid yw'n bosibl gwarantu na fydd digwyddiadau mawr yn y ddinas yn effeithio ar ein gwasanaethau glanhau a gwastraff, oherwydd gall cau ffyrdd ac effeithiau eraill arwain at oedi mewn gweithrediadau. Bydd y gwasanaeth glanhau yn targedu casgliadau a fethwyd yn dilyn unrhyw ddigwyddiad o'r fath er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar drigolion.

CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR BURKE-DAVIES

Hoffwn lobïo a hyrwyddo'r ffaith bod Ystum Taf yn ardal yng Nghaerdydd sydd wedi gweld twf cyflym iawn o ganlyniad i'r ystâd newydd, teuluoedd yn symud i'r ardal oherwydd yr amwynderau lleol, yn agos at y ddinas a'r ysgolion da. Mae gennym stryd fawr sy'n cynnwys Lidl newydd, siopau bara a llawer o siopau eraill. Mae llawer o bobl yn defnyddio ein stryd fawr.

Nid problem anghyffredin yw hon pan gynhelir digwyddiad, mae'n digwydd bob wythnos ac mae trigolion yn ysgrifennu ataf yn rheolaidd ynglŷn â chyflwr y stryd fawr ac rwy'n sylwi arno fy hun pan fyddaf yn galw heibio'r co-op ar fore Sul. Mae cyflwr y stryd fawr yn dirywio ac ar sail hynny, byddwn i wir yn hoffi annog eich timoedd i ystyried ymweliadau mwy cyson ag Ystum Taf a'r ardaloedd allanol i sicrhau eu bod yn lân ac yn daclus.

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THORNE

Y broblem yw'r holl ddigwyddiadau hyn, ac ar ddiwedd y dydd Dinas ddigwyddiadau ydy hon ac rydym yn dychwelyd i lanhau popeth wedyn, fel y gwelodd unrhyw un a ddarllenodd y pennawd yn yr Echo yn dilyn gêm Cymru v Iwerddon.

Rwy'n fwy na hapus i gwrdd â chi i drafod eich ward, byddwch yn sylwi wrth i ni gyflwyno proffiliau ward, lle'r ydym yn cwrdd â Chynghorwyr ac yn cael gwybod pa bryderon sydd yn eu wardiau, rhoddir sylw i faterion fel hynny. Rwy'n fwy na hapus i drefnu cyfarfod gyda chi, fy hun a swyddogion i drafod Ystum Taf.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR PARKHILL

Gan ein bod ni'n ceisio denu mwy o ddigwyddiadau i'r ddinas, gan gynnwys rhai mawrion, a wnaiff y Cabinet ystyried lledaenu'r faich rhwng gwahanol wardiau a sicrhau nad effeithir ar yr un wardiau dro ar ôl tro o ran oedi o ganlyniad i ddigwyddiadau mawr?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THORNE

Nid wyf yn deall sut y byddech yn gwneud hynny. Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau yng nghanol y ddinas. Mae rhai digwyddiadau fel yr Hanner Marathon nad ydynt yn newid, ond cynhelir y rhan fwyaf o ddigwyddiadau mewn ardaloedd adnabyddus – rydym yn gwybod lle bydd y cefnogwyr ac rydym yn targedu'r ardaloedd hynny.

Rwy'n fwy na hapus os oes gennych chi unrhyw syniadau, gadewch i mi wybod. Anfonwch e-bost ataf.

CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD SIR DAVIES

A wnewch chi roi gwybod i'r Cyngor am nifer y plant yn ysgolion Caerdydd sy'n derbyn sesiynau seicotherapi ynghyd â dadansoddiad o'r niferoedd ym mhob grŵp oedran?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR MERRY

Mae'n anodd rhoi'r union ffigurau mewn ymateb uniongyrchol i'ch cwestiwn, gan nad yw'r gwasanaethau cwnsela annibynnol ar gyfer pobl ifanc yng Nghaerdydd yn darparu sesiynau seicotherapi fel y cyfryw. Ar ben hynny, mae cynghorwyr yn gweithredu dull integredig tuag at therapi.

Gallaf gadarnhau y defnyddiodd 974 o ddisgyblion y gwasanaeth y llynedd; fodd bynnag, mae nifer o ysgolion hefyd yn cyflogi cynghorwyr yn uniongyrchol ac felly ddim yn rhan o'n hystadegau.

Byddwn yn hapus i roi dadansoddiad manylach i chi o'r ffigurau yn dilyn y cyfarfod, yn hytrach na cheisio darllen y cyfan yn yr amser sydd ar gael.

CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR TIM DAVIES

Rwy'n ddiolchgar am yr ateb hwnnw. Ymddengys bod eithaf tipyn o blant yn derbyn sesiynau therapi o'r fath mewn ardaloedd gwahanol, a thybed a fyddai'n ddefnyddiol casglu'r ffigurau hyn ynghyd a'u nodi fel dangosydd perfformiad?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR MERRY

Rwy'n eithaf hapus, os byddwch yn anfon e-bost ataf ar ôl y cyfarfod, gallwn fynd i'r afael â hynny.

Rwy'n credu mai goblygiadau'r ymateb a dderbyniais gan swyddogion yw y gallai gweithredu fod yn eithaf anodd, ond os anfonwch chi ef draw ataf drwy e-bost, gofynnaf i swyddogion ei ystyried.

CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD SIR CARTER

A wnaiff yr Aelod Cabinet esbonio pwy roddodd ganiatâd i GLL/Better gau caffï Canolfan Hamdden Pentwyn, gan gael gwared ar wasanaeth lleol poblogaidd a diswyddo 4 aelod o staff?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Ceir darpariaethau o fewn y contract sy'n galluogi GLL i addasu'r gwasanaeth, dros gyfnod y trefniadau, i ymateb i dueddiadau, galw ac yn bwysicaf oll, i gynnal darpariaeth yn y tymor canolig i hir.

Rwy'n cadeirio Bwrdd Cyswllt Prosiect yn rhan o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y bartneriaeth lle y trafodir materion gwasanaeth allweddol. Codwyd y mater hwn gyda'r Cyngor gan GLL ac fe'u cyfarwyddwyd gennym i ymgynghori â'r undebau masnach a'r staff hynny yr effeithir arnynt gan y cynnig i gau. Mae broses statudol hon yn parhau.

Rwy'n llwyr gydymdeimlo â'r staff hynny yr effeithir arnynt gan gynigion GLL. Rwy'n cydnabod pa mor bwysig yw gwaith cyflogedig, ar ôl cael fy niswyddo fy hun yn y gorffennol a, drwy drafodaethau gyda GLL, gallaf roi gwybod eu bod yn ymrwymedig i ddod o hyd i gyfleoedd adleoli ar gyfer y staff dan sylw.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR CARTER

Diolch i chi am y diweddariad hwnnw a'r ymrwymiad.

Ydych chi'n credu ei bod yn iawn na ddylid ymgynghori ag Aelodau Lleol mewn proses sy'n cael gwared ar wasanaeth cymunedol yn eu ward?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Mae cyfnod ymgynghori statudol ar y gweill a gallwch gymryd rhan mewn cyfnod ymgynghori statudol os hoffech. Byddwn yn dweud wrth yr Aelod, rhwng 2004 a 2012, diswyddwyd 53 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn yn y sector hamdden

oherwydd newidiadau mewn tueddiadau, un o'r penderfyniadau hynny oedd cau bar Canolfan Hamdden y Tyllgoed oherwydd ei fod yn derbyn cymhorthdal sylweddol.

Mae'r rhain yn benderfyniadau anodd, os dymuna'r Aelod imi drefnu cyfarfod rhyngof i a Sarah Stork sy'n rheoli'r contract, rwy'n fwy na bodlon trefnu hynny i'r Aelod fel ei fod yn ymwybodol o sut y gallwn gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol sydd ar y gweill. Penderfyniad GLL yw hwn, nid penderfyniad y Cyngor, ond mae dal yn bwysig ac rydym wedi egluro i GLL fod gan Aelodau Lleol lais yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau lleol.

CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR GRAHAM THOMAS

Credaf fod y Cyngorydd Carter wedi codi cwestiwn pwysig iawn. Mae fy mam yn defnyddio gwasanaethau cyngor Canolfan Hamdden Llanisien yn rheolaidd, o leiaf unwaith yr wythnos, ac yn ddiweddar bu hi'n siarad â mi am bryderon y Clwb Bowlio, y Clwb Badminton, gwersi nofio am ddim, ac mae'r caffi eisoes ar gau. Pa amddiffyniadau sydd ar waith gan y Cyngor i stopio'r gwasanaethau hanfodol hyn ar gyfer yr henoed nad ydynt, efallai, yn cynhyrchu cymaint o elw, rhag cael eu dileu?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Yn rhan o'r contract, mae'n rhaid i unrhyw newidiadau gwasanaeth angenrheidiol gael eu dwyn gerbron y bwrdd cyswllt prosiect o fewn 90 diwrnod o unrhyw newid i wasanaeth. Os oes gwasanaethau amhrisiadwy ac yr ydym o'r farn sy'n cynnig gwasanaeth lleol, gallwn ofyn i GLL ailystyried unrhyw newidiadau a wneir ganddynt; yn debyg i'r hyn yr ydym yn sôn amdano, mae yna ymgynghoriad statudol ar gyfer unrhyw newid i wasanaeth y crybwyllais i'r Cyngorydd Carter.

Ond nid yw'n ddrwg i gyd, buddsoddir yn y gwasanaeth ac mae'r ganolfan hamdden yr ydych yn cyfeirio ati yn derbyn buddsoddiad cyfalaf sylweddol sy'n arwydd o ymrwymiad hirdymor y Cyngor hwn a GLL i ddarparu cyfleusterau hamdden o'r radd flaenaf ar draws y ddinas hon.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR JACOBSEN

A wnaiff yr Aelod Cabinet adolygu A7 y polisi Cynhwysydd Gwastraff, nad yw wedi'i adolygu ers Rhagfyr 2016?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Cytunwyd ar y polisi yn 2015 a'i adolygu yn Rhagfyr 2016. Nid oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i adolygu'r polisi eto, ond byddwn yn hapus i gwrdd â chi i drafod unrhyw faterion penodol a allai fod gennych chi neu drigolion lleol.

CWESTIWN ATODOL – Y CYNGHORYDD SIR JACOBSON

A wnaiff yr Aelod Cabinet gadarnhau na fydd y tâl o £25 a godir ar adeiladau newydd, fel y nodir yn nhabl 1 eich polisi, na thâl am y bin cyntaf yn cael ei godi'n uniongyrchol ar eich preswylwyr, megis preswylwyr newydd yn symud i 111 o gartrefi newydd yn East Side Quarter yn Llanedern yn fy etholaeth i?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Deallaf beth yr ydych chi'n ei ddweud, ond mewn gwirionedd, ar gyfer bob aelwyd newydd, mae'n £50, 2 fin, gwyrdd a bin du. Os yw'r landlord yn un cymdeithasol, byddwn yn disgwyl iddo gyfrannu, os ydyw yn rhywun sy'n prynu tŷ preifat newydd sbon, ni chewch dŷ newydd yn yr ardal honno am lai na £280k, felly nid yw £50 yn llawer iawn o arian.

Os ystyriwch hyn o'n safbwynt ni, rydym yn bwriadu adeiladu 20,000 o dai yn y ddinas hon, a thrwy godi £50 yr un, bydd hynny'n cynhyrchu £1 miliwn. Os byddaf yn newid y penderfyniad hwnnw i'ch plesio chi yn Llanedern a Phentwyn, yna mae arnaf ofn y bydd yn rhaid i mi ei wneud i bawb ac nid yw hynny'n bosibl.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR CARTER

Gwnaethoch ategu'r farn a fynegwyd gan swyddogion yn eu hymatebion hefyd. Rwy'n derbyn eich pwynt ynghylch y gost, ond mae'n bosibl i chi a swyddogion ystyried pa un a allai datblygwyr fodloni'r costau hynny yn hytrach na'r unigolion. Rwy'n derbyn eich pwynt ei fod yn gost anferthol i ni fel Cyngor pan gaiff ei lluosu gan y maes hwnnw, ond ar gyfer Datblygwr sy'n talu £280k am dŷ preifat, y peth lleiaf y gall ei wneud yw cynnwys dau fin plastig a chadi bach hefyd – byddai hynny'n beth rhesymol y gallent ei gyfrannu?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Efallai na fydd yr hyn sy'n rhesymol i mi ac i chi, yn rhesymol i ddatblygwr. Byddaf yn rhannu eich sylwadau.

CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD SIR OWEN

Mae llawer o drigolion Rhiwbeina a thrigolion ar draws Caerdydd yn defnyddio eu biniau gwyrdd nid yn unig i waredu eu gwastraff gardd personol ar adeg hon y flwyddyn, ond hefyd i waredu dail a changhenni a gliriwyd ganddynt o'u strydoedd, ffyrdd a rhodfeydd. Felly, a wnaiff y Cyngor ystyried ymestyn y casgliadau bin gwyrdd rheolaidd hyd at ddiwedd mis Tachwedd, er mwyn helpu trigolion ag ymdrech lanhau yr hydref bob blwyddyn?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Mae casgliadau gwastraff gwyrdd tymhorol yn newid ar draws y ddinas drwy gydol mis Tachwedd. Mewn gwirionedd rydych chi'n gofyn i mi eu hymestyn tan ddiwedd mis Tachwedd, ond nid ydynt yn newid yn Rhiwbeina tan 24 Tachwedd beth bynnag, oherwydd y ffordd y cânt eu cyflwyno fesul cam. Rydym yn eu cyflwyno fesul cam, fel bod y maestrefi mwy deiliog yn defnyddio'r biniau'n hirach, mae'r hyn yr ydych yn gofyn i mi amdano wedi'i wneud yn barod.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR OWEN

Deallaf eu bod yn dod i ben mewn wythnos neu ddwy. Ni chânt eu cario ymlaen bob pythefnos. Credaf mai'r pwynt cyffredinol yr wyf yn ceisio ei wneud, yw, yr adeg hon o'r flwyddyn, mae llawer o drigolion yn defnyddio'r biniau hynny er mwyn helpu i gadw'r strydoedd yn fwy taclus, a hefyd pan fo pobl yn gallu defnyddio eu biniau gwyrdd i helpu'r Cyngor, mae hynny hefyd yn lliniaru'r problemau o ran llifogydd ac yn helpu'r henoed a phobl anabl i fynd o gwmpas gan fod llai o rwystr iddynt rhag gwneud hynny.

Credaf y codwyd y mater hwn flwyddyn yn ôl, felly a gaf ofyn a ydych wedi ystyried ymestyn y gwasanaethau hyn ymhellach?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Gwnaethom edrych canlyniadau y llynedd a'u hystyried eto. Nid yw'r dyddiad yn un gorfodol ar gyfer y ddinas gyfan, mewn gwirionedd mae gan rai wardiau finiau yn hirach, mae gan Ogledd y Ddinas finiau nes diwedd mis Tachwedd, felly mae biniau ganddynt ar gyfer y mis yr ydych wedi gofyn iddynt gael eu hymestyn.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR OWEN JONES

Gan ddilyn ymlaen o hyn, o ran ymrwymiad y Cyngor Llafur hwn i annog pobl i seiclo yn y ddinas, pa fesurau ydym yn eu cyflwyno yn ystod y cam cynllunio i sicrhau bod gan bob swyddfa a gweithle sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd gyfleusterau ar gyfer teithwyr sydd eisiau beicio?

YMATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD

Mae gan swyddfeydd a gweithleoedd ran fawr i'w chwarae o ran annog mwy o bobl i feicio. Mae rhai pethau y gallwn eu gwneud gyda rhai Canllawiau Cynllunio Ategol a gyflwynir o fewn ein hadran gynllunio. Mae un newydd sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd, sydd dal i gael ei ddrafftio, a fydd yn rhoi mesurau ar waith fel y bydd adeiladau newydd yn cynnwys cyfleusterau parcio a newid hirdymor sefydlog - wrth gwrs bydd angen i ni brofi'r rhain.

Rwy'n falch o weld bod gan adeiladau newydd y BBC lawer iawn o gyfleusterau parcio a chawodydd ac ystafelloedd newid. Roeddwn yn cael trafodaeth yr wythnos hon ag un o'n busnesau, Capital Law, a soniodd am y gwahaniaeth a wnaed i'w busnes drwy gyflwyno cawodydd a loceri o ansawdd da iawn - roedd wedi achosi chwyldro beicio yn y gweithle. Mae'n rhywbeth yr ydym yn awyddus iawn i'w wneud, yr wythnos nesaf, yn rhan o lansiad Bike Life er mwyn annog nifer o fusnesau i gymryd rhan, mae'r Cyngorydd Thomas a minnau'n cwrdd â nhw a bydd yn rhywbeth arall y byddwn yn ei drafod gyda nhw.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR OWEN JONES

Rwy'n falch iawn o weld ymrwymiad y Cyngor i wella teithio llesol yn ein Dinas. Mae Caerdydd yn wastad iawn, sy'n ddelfrydol ar gyfer beicio a cherdded, ond yn anffodus mae hi'n ddinas lawog iawn. Byddai cyflwyno cyfleusterau cawodydd ym

mhob swyddfa mewn busnesau mawrion yn ysgogiad gwych i'r rhai hynny a fyddai'n hoffi beicio i'r gwaith. Rwy'n croesawu'r gwaith yr ydych yn ei wneud ag adeiladau newydd.

A wnaiff y Cyngor ystyried ffyrdd y gallwn annog swyddfeydd hŷn, megis rhai sy'n eiddo i'r cyngor, fel yr adeilad hwn, o bosib i osod cyfleusterau fel bod yr holl randdeiliaid yn cydweithio i annog teithio llesol ar draws y ddinas?

YMATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD

Rwy'n credu ei fod yn anodd ei wneud yn rhan o gynllunio, ond mae'n rhywbeth yr ydym yn ei wneud o ran diwylliant ac yn rhywbeth y dylem geisio ei wneud fel arweinyddiaeth yn y Ddinas, a dylem ni gyd fod yn siarad â'r busnesau yr ydym yn gwybod amdanynt yn glŷn â sut y gallan nhw helpu'r math hwnnw o waith, credaf ei fod yn syniad da iawn.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD SIR DRISCOLL

Nawr bod parthau 20mya ar waith ym Mhontcanna a Glan-yr-afon, a ydych chi o'r farn bod hyn wedi gwneud yr ardal yn fwy diogel i feicwyr a cherddwyr a pha gynlluniau sydd gennych i orfodi'r cyfyngiad 20mya? Ac os yw'r ffyrdd yn fwy diogel i feicwyr, ac rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno eu bod nhw, a ydych chi'n mynd i weithredu mesurau gorfodi hefyd i fynnu nad yw pobl yn beicio ar y palmentydd er mwyn ei gwneud hi'n fwy diogel i gerddwyr?

YMATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD

Rwy'n credu bod ceir yn mynd yn arafach drwy Dreganna a Glan-yr-afon, er bod rhai yn dal i yrru, gwnaethom drafod yn gynharach yn fy ymateb i'r Cyngorydd Gordon yr hyn yr ydym ni'n mynd i'w wneud ynghylch gorfodi, ond rwy'n credu bod gan feicwyr hefyd ran i'w chwarae. Rwy'n derbyn eich pwynt yn glŷn â beicwyr ar balmentydd, rwy'n credu yn rhan o hyn, yn ogystal ag addysgu gyrwyr a cheisio creu'r diwylliant hwnnw, mae'n rhaid i'r gymuned feicio sicrhau hynny, ond nid yw'n un grŵp homogenaidd, felly mae'n ymwneud â newid diwylliant a cheisio cael pobl i rannu gofod yn well rhwng cerddwyr, beicwyr a gyrwyr a phobl eraill sy'n defnyddio'r ffyrdd.

Nid wyf yn ceisio osgoi'r cwestiwn, ond rhoddais ateb hir i'r Cyngorydd Gordon yn gynharach ar union yr un peth.

CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD SIR REES

Pa gynnydd a wnaed yn y mis diwethaf â Phapur Gwyrdd ar dagfeydd traffig a thrafnidiaeth yn y Ddinas?

YMATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD

Byddwn yn eich cyfeirio chi at y datganiad y gwnes i heno - efallai na welsoch chi ef pan wnaethoch lunio hwn - felly rwy'n eich cyfeirio ato gan ei fod yn rhoi diweddariad o ran ein sefyllfa â'r Papur Gwyrdd, ond hefyd i ddweud pa mor falch oeddwn i gwrdd

â'ch cydweithwyr a'r Cynghorwyr Parkhill a Robson i ystyried sut ydym yn gweithredu'r Papur Gwyrdd hwnnw fel yr addewais y byddwn yn ei wneud.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD SIR REES

Sylweddolaf fod y Blaid Lafur dal yn aelodau o'r Gymdeithas Daear Wastad, ond roeddwn yn chwilio am ragor o fanylion na hynny. A sefydlwyd tîm i lunio'r papur Gwyrdd ac a ydych chi'n gallu cadarnhau y bydd yn arolygu tagfeydd, nifer y cerbydau ar ein prif ffyrdd, ansawdd aer ar y ffyrdd hynny, nifer yr anifeiliaid gwyllt/moch daear wedi'u hanafu neu'u lladd ar rannau o'r ffyrdd sydd yn agored iawn i dagfeydd ac a wnewch chi amlinellu i'r Cyngor hyd yn hyn, gan nad oeddwn yn fodlon ar eich datganiad, beth yn union sydd wedi'i wneud i lunio'r papur Gwyrdd erbyn mis Ebrill 2018?

YMATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD

Do, sefydlwyd tîm sy'n cwrdd sawl gwaith i bwysu a mesur agweddau ar y portffolio gan ystyried yr aer glân gyda'm cydweithwyr.

O ran y cwmpasu, byddwn yn ailadrodd fy mod yn hapus i gwrdd â phob plaid ac Aelod, a bûm yn cwrdd â chydweithwyr ddod i edrych ar hynny'n fanwl, felly nid wyf eisiau ailadrodd hynny eto nawr, ond rwy'n hapus i gwrdd â nhw eto i roi manylion am beth yn union sydd ynddo. Mae'n debygol o fod yn eithaf cymhleth, ond nid oes unrhyw reswm i ddiystyru unrhyw beth o ran beth allai gael ei gynnwys ynddo, felly mae croeso i chi anfon unrhyw beth ataf i.

CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD SIR LANCASTER

Pa gydweithio sy'n digwydd rhyngoch chi a darparwyr trafndiaeth gyhoeddus wrth baratoi ar gyfer digwyddiadau mawr yn y ddinas?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Mae ymgynghori â'r holl ddarparwyr trafndiaeth gyhoeddus yn elfen allweddol o gynllunio ar gyfer digwyddiadau mawr.

Cynhelir trafodaethau yn ystod y cam bidio cychwynnol a chyn gynted ag y cadarnheir digwyddiadau.

Nid oes angen darparu gwasanaethau ychwanegol i gefnogi digwyddiad, byddai cost y gwasanaethau hyn fel arfer angen cael ei gwarantu gan hyrwyddwr y digwyddiad neu'r llywodraeth, neu gyfuniad o'r ddau.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD SIR LANCASTER

Cynhelir gêm focsio Anthony Joshua yng Nghaerdydd y penwythnos hwn a chynhelir gêm bêl-droed Caerdydd b Millwall yr un diwrnod, a fydd yn golygu y bydd mwy na 100k o gefnogwyr yn dod i'r Ddinas - bydd llawer ohonynt yn dod o Loegr. Efallai y byddwch yn disgwyl i ni gynyddu lefel y gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus i ateb y galw cynyddol, ond mewn gwirionedd, fel y gwyddoch, byddwn yn lleihau'r

ddarpariaeth dros y penwythnos a bydd llawer o wasanaethau trên yn cael eu canslo. Rwy'n siŵr nad fi yw'r unig un sy'n credu bod y sefyllfa hon braidd yn chwerthinlyd, rydym yn ceisio bod yn Ddinas flaenllaw fel y mae datganiad Uchelgais Prifddinas gan y Cabinet yn gynharach eleni yn dymuno i Gaerdydd fod.

Sut ydym yn mynd i gynllunio a denu'r digwyddiadau hyn, os nad oes gennym y ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus briodol ar waith?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Byddaf yn codi'r mater hwn gyda Network Rail a'r holl ddarparwyr trenau eraill, a byddwn yn ystyried hyn o ddifrif. Yr hyn a fyddai'n wych i Gaerdydd ac i Gymru, byddai trydaneiddio'r rheilffordd yr holl ffordd i Abertawe.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD SIR HOWELLS

Es i ar y wefan ac edrych ar ein cyngor teithio ein hunain ar gyfer dydd Sadwrn, ac a gaf i ofyn i chi adolygu sut yr ydym yn rhannu'r wybodaeth honno? Oherwydd mae'r wybodaeth sy'n nodi na fydd y trenau ar gael ar ôl i'r gêm focsio ddod i ben, yn cuddio ar waelod y dudalen we, a dylid ei hamlygu fel bod pobl yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Rwyf newydd weld y Prif Weithredwr a gofyn iddo flaenoriaethu hyn. Byddaf yn gofyn i'r tîm Cyfathrebu sicrhau ein bod yn gwella hynny.

79 : MATERION BRYS

80 : AELODAETH Y PWYLLGOR

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo newidiadau i Aelodaeth Pwyllgor.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag ar y Pwyllgor yn unol â dymuniadau Grŵp y Blaid:

Committee		Enwebiad
Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd	2 swydd wag	Y Cyngorydd Robson i gymryd lle Plaid
Y Grŵp Ymgynghorol ar lechyd a Diogelwch	1 swydd wag	Y Cyngorydd Murphy i gymryd lle'r Cyngorydd Patel

81 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Derbyniwyd y Cwestiynau Ysgrifenedig hyn yn unol â Gweithdrefn 17(f) y Cyngor a'u cylchredeg i bob Aelod am hanner dydd ar 26 Hydref 2017.

CADEIRYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO – Y CYNGHORYDD KEITH JONES
CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR TAYLOR

Pa ystyriaeth y gellir ei rhoi i nifer y myfyrwyr a'r twf ym mhoblogaeth myfyrwyr wrth ddod i benderfyniad ar geisiadau cynllunio ar gyfer llety myfyrwyr mawr pwrpasol?

Ymateb

Mae canllawiau cynllunio cenedlaethol yn nodi mai dyletswydd awdurdodau cynllunio lleol ydyw i ddod i benderfyniad ar geisiadau cynllunio yn seiliedig ar eu rhinweddau cynllunio.

Mae'n rhaid i ystyriaethau cynllunio ymwneud â'r datblygiad dan sylw mewn modd teg a rhesymol. Yn y pen draw, y Llysoedd yw cyflafareddwyr terfynol yr hyn a allai synio amdano fel ystyriaethau materol mewn cysylltiad ag unrhyw gais penodol, ond maent yn cynnwys nifer, maint, cynllun, dyluniad a gwedd adeiladau, y dull mynediad, tirlunio, argaeledd gwasanaethau a'r effaith ar y gymdogaeth a'r amgylchedd. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi mai mater o farn yw pwysigrwydd yr ystyriaethau materol.

Yn hyn o beth, mae gan y Cyngor – fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol – ddyletswydd i ystyried yn ofalus yr holl gynigion a gyflwynwyd yn unol â'r canllawiau hyn. Byddai angen asesu arwyddocâd yr ystyriaethau ynghylch niferoedd y myfyrwyr fesul achos, ynghyd ag unrhyw ystyriaethau materol eraill.

PLANT A THEULUOEDD - Y CYNGHORYDD GRAHAM HINCHEY
CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR DE'ATH

Mae adroddiad ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Dr Patricio Troncoso o Brifysgol Manceinion wedi canfod bod 50% o blant a atgyfeiriwyd at wasanaethau plant y DU ym mlwyddyn ariannol 2010-11, wedi'u hailatgyfeirio erbyn diwedd 2014-15. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar astudiaeth o 498,867 o blant a atgyfeiriwyd yn 2010-11, mewn 145 o awdurdodau lleol a gwaith modelu mwy manwl yn seiliedig ar is-set o 90,209 o blant mewn 144 o awdurdodau lleol.

A wnaeth Cyngor Caerdydd gymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn a pha ganran o'r plant a atgyfeiriwyd at wasanaethau plant Caerdydd ym mlwyddyn ariannol 2010-11 gafodd eu hailatgyfeirio erbyn diwedd 2014-15?

Ymateb

Hyd eithaf ein gwybodaeth, ni chymeridd gwasanaethau plant Caerdydd ran yn y gwaith ymchwil hwn. Cafodd 47.7% o blant unigol a atgyfeiriwyd at Wasanaethau Plant yng Nghaerdydd yn 2010-11 eu hailatgyfeirio erbyn diwedd 2014-15. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth ymdrin â'r ffigwr hwn gan nad yw o reidrwydd yn dangos, mewn unrhyw achos, fod yr atgyfeiriad cychwynnol neu unrhyw ailatgyfeiriad dilynol yn ymwneud â phryder sylweddol. Mewn sawl achos, byddai atgyfeiriadau cychwynnol neu ddilynnol wedi bod, i bob pwrpas, yn atgyfeiriad 'gwybodaeth yn unig' gan arwain at beidio â chymryd unrhyw gamau eraill.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR DE'ATH

Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynigion i sefydlu Uned Hyfforddi a Datblygu Gweithle Gofal Cymdeithasol ranbarthol i wasanaethu Cyngorau Caerdydd a'r Fro er mwyn sicrhau darpariaeth hyfforddiant o ansawdd uchel ar draws y sector gofal cymdeithasol yn y ddwy ardal awdurdod lleol, sy'n ddatblygiad a groesewir yn fawr. Fodd bynnag, gan nad yw Aelodau o Gyngor Caerdydd a/neu Gyngor Bro Morgannwg yn cymryd rhan uniongyrchol yn y trefniadau llywodraethu arfaethedig, ac am na chynigir creu cydbwyllgor ffurfiol, a wnaiff yr awdurdod hwn gytuno i rannu adroddiadau blynyddol a chynlluniau gwaith yn rhan o'r cydweithio â'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a/neu'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion, iddyn nhw eu harchwilio?

Ymateb

Y bwriad yw, y bydd y ddau Gyngor yn pennu "Cytundeb Partneriaeth" ffurfiol sy'n cael ei ddatblygu gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Ymysg pethau eraill, bydd y cytundeb yn cynnwys y cylch gorchwyl ac aelodaeth y Byrddau Rheoli a Llywodraethu a fydd yn derbyn adroddiadau perfformiad ar gyfnodau cytunedig.

Mae Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Gweithlu Rhanbarthol yn cytuno y byddai'n briodol rhannu unrhyw adroddiadau blynyddol neu arwyddocaol eraill yn ymwneud â gwaith y Bwrdd gyda Phwyllgorau eraill y Cyngorau ym mhob awdurdod lleol, ar yr amod bod Cadeirydd y Pwyllgor perthnasol yn cytuno.

ADDYSG, CYFLOGAETH A SGILIAU - Y CYNGHORYDD SARAH MERRY CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR DE'ATH

Mae nifer o rieni o bob rhan o Dde Cymru wedi mynegi pryderon ynghylch Gweinidogion y grŵp efengylaidd creadigol dadleuol, OAC, yn ymweld ag ysgolion cynradd yn y rhanbarth, gyda rhai rhieni'n tynnu eu plant o wersi lle mae'r grŵp yn bresennol, ac eraill yn mynegi pryder bod y grŵp, yn ôl y sôn, wedi cynnal gwasanaethau a gweithgareddau eraill yn cynnwys eu plant heb iddynt wybod ymlaen llaw. Beth y mae Cyngor Caerdydd yn ei wneud i sicrhau bod ysgolion a chyrrff llywodraethu'n sicrhau bod gweithredoedd cydaddoli ac ati yn briodol ac nad

ydych chi'n gwahaniaethu, a bod rhieni'n cael gwybod ymlaen llaw y bydd Gweinidogion OAC yn ymweld ag ysgol eu plant?

Ymateb

Rwy'n ymwybodol bod rhai rhieni wedi mynegi pryderon am ymweliadau'r grŵp penodol hwn ag ysgolion yng Nghaerdydd. Felly, rwyf wedi gofyn i swyddogion atgoffa pob ysgol a chorff llywodraethu y dylai fod ganddynt bolisi ymweld ar waith i sicrhau bod barn a gwerthoedd ymwelwyr yn briodol ar gyfer cyd-destun yr ysgol ac oedran y plant maent yn siarad â nhw.

Rwyf hefyd wedi gofyn i swyddogion atgoffa pob ysgol y dylen nhw hefyd sicrhau bod rhieni'n cael gwybod ymlaen llaw am unrhyw ymwelwyr allanol a fydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'u plant neu'n cynnal gwasanaethau yn yr ysgol. Bydd swyddogion yn parhau i weithio gydag ysgolion a llywodraethwyr i sicrhau bod hyn yn digwydd.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BALE

Faint o ysgolion a ddefnyddiwyd fel gorsafoedd pleidleisio ar gyfer yr Etholiadau Awdurdodau Lleol ym mis Mai 2017 ac Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Mehefin?

Faint o'r ysgolion hyn gafodd eu cau neu eu cau'n rhannol i ddisgyblion a faint o ddisgyblion nad oeddent yn gallu mynychu'r ysgol ar y dyddiau hyn?

Ymateb

Yn ystod Etholiadau'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 4 Mai 2017 ac Etholiad Seneddol y DU a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2017, defnyddiodd y Cyngor 28 o ysgolion fel gorsafoedd pleidleisio; o'r rheiny, roedd 14 ysgol ar gau ac 14 wedi'u cau neu eu cau'n rhannol i ddisgyblion. Roedd 2.962 o ddisgyblion nad oeddent yn gallu mynychu'r ysgol ar bob un o'r dyddiau hyn.

Fel arfer, rhoddir o leiaf 11 mis o rybudd i bob safle'r Cyngor y bydd y tîm Gwasanaethau Etholiadol angen defnyddio eu safle fel gorsaf bleidleisio, oni bai y gelwir am Etholiad Seneddol sydyn fel y digwyddodd yn gynharach eleni.

Mae'r tîm Gwasanaethau Etholiadol yn ceisio osgoi defnyddio ysgolion, colegau a chanolfannau cymunedol cymaint â phosibl ac yn ceisio defnyddio lleoliadau eraill, ond, ar sawl achlysur, nid oes unrhyw leoliad addas arall ar gael o fewn yr ardal bleidleisio.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BALE

Beth yw nifer a chanran y disgyblion yn B11 mewn ysgolion:

- a) Cyfrwng Saesneg;
- b) Cyfrwng Cymraeg;
- c) Ffydd;
- d) Pob Ysgol yng Nghaerdydd

a gyflawnodd cymhwyster A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith (ac eithrio Cwrs Byr Cymraeg TGAU) fel cyfanswm a chanran o'r holl ddisgyblion wedi'u cofrestru yn B11 mewn ysgolion?

Ymateb

Canlyniadau 2017 – Data Dros Dro			
	Carfan Blwyddyn 11	Nifer y Disgyblion Blwyddyn 11 yn Cyflawni A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf neu Ail Iaith	Canran y Disgyblion Blwyddyn 11 yn Cyflawni A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf neu Ail Iaith
Cyfrwng Saesneg*	1897	710**	37.43%
Ysgolion Ffydd	887	440	49.61%
Cyfrwng Cymraeg	381	315	82.68%
Pob Ysgol yng Nghaerdydd***	3283	1465	44.62%

**Mae ysgolion cyfrwng Saesneg yn rhai prif ffrwd ac eithrio ysgolion ffydd*

*** Yn cynnwys 2 ddisgybl a gyflawnodd lefel UG ond sydd ym Mlwyddyn 11.*

**** Yn cynnwys ysgolion arbennig, Uned Cyfeirio Disgyblion ac Addysg Heblaw am yr Ysgol*

CYLLID, MODERNEIDDIO A PHERFFORMIAD – Y CYNGHORYDD

CHRISTOPHER WEAVER

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR SANDREY

Faint sydd wedi manteisio ar Gynllun Dileu Swyddi Gwirfoddol y Cyngor ac a oes unrhyw asesiad wedi bod o'r effaith bosibl o ran capasiti gweithredol?

Ymateb

Mae nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynllun yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn seiliedig ar nifer y swyddi corfforaethol sydd angen eu dileu o ganlyniad i gynigion arbedion a newidiadau i wasanaethau.

Ym mlwyddyn ariannol 2016/17, manteisiodd 40 o gyflogeion corfforaethol (ac eithrio ysgolion) ar y cynllun a hyd at ddiwedd mis Medi 2017 yn y flwyddyn ariannol bresennol, y nifer priodol yw 15.

Yn rhan o'r broses o ddileu swyddi gwirfoddol, mae'n rhaid i wasanaethau corfforaethol roi manylion am unrhyw effeithiau ar gapasiti gweithredol, a darperir yr wybodaeth hon ynghlwm wrth yr achos busnes a'u cymeradwyo gan Gyfarwyddwr y gwasanaeth hwnnw.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR HOWELLS

Mae amrywiaeth o awdurdodau lleol ar draws y DU wedi cyflwyno mesurau i eithrio pobl sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor. A yw hyn yn rhywbeth y mae Cyngor Caerdydd wedi'i ystyried?

Ymateb

Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw eithriad statudol ar hyn o bryd yn rhan o ddeddfwriaeth y Dreth Gyngor ar gyfer pobl sy'n gadael gofal. Mae gan y Cyngor bwerau dewisol o dan Adran 13A(1)(c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 lle y gall ystyried diystyru rhai neu'r holl gostau Treth Gyngor ar gyfer unigolion neu grwpiau o unigolion penodol ac rwy'n amau efallai mai o dan y ddeddfwriaeth hon y mae awdurdodau eraill wedi bod o blaid rhyddhad.

Mae Polisi Rhyddhad Dewisol y Cyngor yn nodi bod yn rhaid i'r unigolion dan sylw neu eu heiriolwr/penodai gyflwyno cais, a fydd yn cael ei drin yn ôl ei rinweddau ei hun. Er mwyn bod yn gymwys am ostyngiad, mae'n rhaid bod tystiolaeth glir o amgylchiadau eithriadol o ystyried bod yn rhaid cyllido'r gost o ddyfarnu gostyngiad o gyfanswm yr incwm a gynhyrchir gan y Dreth Gyngor. Felly, yr arfer presennol yw y caiff unrhyw gais am y gostyngiad hwn eu hystyried fesul achos.

O ran categori eithriad ar gyfer yr holl bobl sy'n gadael gofal, bydd y Cyngor yn cysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn trafod ymgyrch y Gymdeithas Plant ac i ddysgu a oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno eithriad o'r fath yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae sefyllfa bresennol Llywodraeth Cymru yn dangos bod gan awdurdodau lleol ddewis i ddefnyddio eu pwerau i ddyfarnu'r eithriad hon.

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn ceisio nodi'r niferoedd posibl o bobl sy'n gadael gofal a fyddai'n cael eu heffeithio pan wneir unrhyw benderfyniad.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR HOWELLS

Faint o bobl gyda demensia sy'n cael eu 'diystyru' at ddibenion y dreth gyngor yng Nghaerdydd a sut y caiff yr eithriad treth gyngor hon ei chyfathrebu i drigolion?

Ymateb

Ceir dau fath gwahanol o ostyngiad a all fod yn berthnasol i bobl a ddisgrifir ac a ddiffinnir yn ehangach dan ddeddfwriaeth Treth Gyngor fel pobl sydd â 'nam meddyliol difrifol'.

Yn gyntaf, pan fo eiddo yn cael ei feddiannu gan bobl sydd â nam meddyliol difrifol yn unig, a fyddai fel arall yn atebol i'r dreth, yna cânt eu heithrio'n llwyr rhag talu'r dreth.

Yn ail, caiff pobl sydd â nam meddyliol difrifol eu rhestru dan ddeddfwriaeth Treth Gyngor fel un o'r categorïau o bobl a ddiystyrir (neu eu heithrio) at ddibenion cyfrifo gostyngiad o'r dreth.

Bydd y bil Treth Gyngor ar gyfer eiddo lle caiff un o ddau breswlydd ei eithrio yr un fath ag ydyw ar gyfer eiddo gydag un preswlydd yn unig. Hynny yw, cewch ostyngiad o 25%. Os yw rhywun sy'n gymwys am eithriad yn byw ar ei ben ei hun, neu ond gydag eraill nad ydynt yn gymwys am eithriad, bydd gostyngiad o 50% yn berthnasol. Os oes un neu fwy o breswylwyr sy'n cael eu cyfrif, ni roddir gostyngiad waeth pwy arall sy'n byw yn yr eiddo.

Mae 375 o eiddo ar hyn o bryd wedi'u heithrio rhag y dreth ar y sail eu bod wedi'u meddiannu gan bobl sydd â nam meddyliol difrifol yn unig ac mae 551 o eiddo lle y dyfernir gostyngiad diystyru. Felly, ar hyn o bryd rydym yn dyfarnu gostyngiadau ar gyfer 926 o eiddo i gyd yng Nghaerdydd.

Rhoddir manylion am y ddau fath hyn o ostyngiad ynghyd ag esboniad ohonynt ar wefan y Cyngor ac yn y nodiadau esboniadwy wedi'u hatodi at bob bil Treth Gyngor a gyflwynir (bellach darperir copi caled o'r nodiadau esboniadwy dim ond ar gais gan fod pob bil yn cynnwys manylion o le y deuir o hyd iddynt ar wefan y Cyngor).

Mae Ffurflen Ymholiad y Dreth Gyngor, a gyflwynir yn aml pan fo pobl newydd yn meddiannu eiddo, hefyd yn nodi manylion am y gostyngiadau/eithriadau y gellir eu hawlio ac yn cynnwys gwahoddiad i wneud cais amdanynt.

Yn ogystal â hyn, caiff holl staff y Dreth Gyngor, y Ganolfan Gyswilt a'r Hybiau sy'n ymdrin ag ymholiadau'r Dreth Gyngor, eu hyfforddi i nodi'r mathau hyn o ostyngiadau/eithriadau ac i'w hyrwyddo'n weithredol. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle y gellir dyfarnu gostyngiad gofawlwr, yn ogystal â gostyngiad ar sail nam meddyliol difrifol. <

TAI A CHYMUNEDAU – Y CYNGHORYDD LYNDA THORNE CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD NAUGHTON

Beth yw cynnydd y cyngor wrth weithredu'r model Tai yn Gyntaf?

Ymateb

Mae'r Cyngor wedi cychwyn partneriaeth â Byddin yr Iachawdwriaeth i ddatblygu cynllun peilot Tai yn Gyntaf o hyd at 10 uned. Bydd hyn yn rhoi cartrefi i gysgwyr ar y stryd ac unigolion eraill sy'n agored i niwed mewn llety hunangynhwysol heb ddilyn y llwybr arferol drwy hosteli a darpariaeth a gefnogir.

Mae manyleb gwasanaeth wedi'i ddatblygu, ynghyd â phroses atgyfeirio ac asesu, a sefydlwyd tîm amlddisgyblaeth. Hefyd, mae Grŵp Llywio Housing First wedi'i sefydlu er mwyn helpu i bontio cysgwyr ar y stryd yn effeithiol i'r prosiect Tai yn Gyntaf.

Mae'r Cyngor a thri Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (Cymdeithas Tai Wales and West, Cymdeithas Tai Taf a Chymdeithas Tai Linc) wedi ymrwymo eiddo i'r cynllun. Mae atgyfeiriadau cyntaf o gleientiaid addas wedi'u gwneud a chaiff y ddau leoliad cyntaf eu gwneud yn gynnar ym mis Tachwedd 2017.

Mae'r prosiect Tai yn Gyntaf yn un o blith nifer o fentrau y mae'r Cyngor a phartneriaid y trydydd sector yn eu gweithredu er mwyn ceisio mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghaerdydd yn unol â'n Strategaeth Cysgu ar y Stryd 2017-20.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR DE'ATH

Yn ddiweddar (06/09/17), cyhoeddodd y Bristol Post adroddiad ar y cyffur synthetig Spice yn y ddinas, gan honni bod 'yr heddlu yn cyfaddef nad oes llawer y gallant ei wneud i stopio'r hyn sy'n datblygu'n gyflym i fod yn epidemig.' Nododd yr adroddiad fod cynnydd sylweddol mewn fersiynau cryfach o'r cyffur yn achosi cynnydd mewn anafiadau yng nghanol dinas Bryste – a chyfaddefodd yr heddlu lleol yn ôl y son nad oedd y gwasanaethau cymorth i annog pobl i roi'r gorau i ddefnyddio'r cyffur 'yn arbennig o dda'. A wnaiff yr Aelod Cabinet roi sylwad ar raddfa y gwyddys amdani o'r defnydd o Spice yng Nghaerdydd, pa gefnogaeth y mae asiantaethau partner yn ei chynnig i ddefnyddwyr, a chynaliadwyedd y gwasanaethau hynny wrth symud ymlaen?

Ymateb

Mae Cyngor Caerdydd yn aelod cyfansoddol o Fwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd a'r Fro (BCA). Mae'r BCA yn gyfrifol am ddarparu a rheoli perfformiad yr holl wasanaethau camddefnyddio sylweddau ar draws Caerdydd gan gynnwys atal, addysgu ac ymyrraeth gynnar, drwy leihau niwed, triniaeth ac ôl-ofal.

Bu adroddiadau anecdotaidd yn nodi lefelau cynyddol o'r defnydd o Spice yn y ddinas, yn enwedig ymhlith y boblogaeth ddigartref ond, hyd yn hyn, ni cheir unrhyw dystiolaeth feintiol i gefnogi'r honiadau hyn.

Mae'r holl waith ataliol, addysgu, triniaeth a chefnogi yng Nghaerdydd wedi'u datblygu mewn ymateb i gynnydd posibl o'r defnydd o Spice yn y ddinas. Mae'r

gwasanaeth ymgysylltu, allgymorth a mynediad agored, Taith, yn gwbl gymwys i ymateb i achosion o'r defnydd o Spice; er, unwaith eto, nid yw'r ffigurau'n ymddangos yn ddifrifol ar hyn o bryd.

Mae'r BCA wedi bod yn rhagweithiol wrth ddatblygu cynnwys rhaglenni addysg mewn ysgolion a'r holl waith atal i gynnwys y risgiau a achosir gan Sylweddau Seicoweithredol Newydd (SSN). Mae hefyd wedi gweithredu rhaglen hyfforddi staff ar gyfer y sector camddefnyddio sylweddau er mwyn nodi ac ymateb i SSN mewn triniaeth, fel bod yr holl weithwyr allweddol yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i fynd i'r afael ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth sy'n datgelu eu bod yn defnyddio Spice.

Mae'r BCA yn parhau i fonitro tueddiadau drwy ddadansoddi cyfraddau gwahanol sylweddau a ddefnyddir gan y rhai hynny sy'n derbyn triniaeth a chymorth, a thrwy barhau i oruchwylio data priodol rhag ofn bod cynnydd mewn achosion brys sy'n gysylltiedig â'r defnydd o SSN yng Nghaerdydd.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR DE'ATH

Mae Cyngor Ealing wedi gwneud penderfyniad nodedig gan ymrwmo i ddod o hyd i ffyrdd o greu 'clustogfeydd' o gwmpas clinigau erthylu er mwyn atal ymgyrchwyr dros fywyd rhag aflonyddu menywod sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn ac atal grwpiau gweddio rhan ymgynnull wrth ymyl i gynnal 'gwylfeydd'. Bydd y Cyngor yn awr yn ystyried opsiynau, cyn cynnal cyfnod ymgynghori. Un dewis fyddai gorfodi Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus (PSPO), a fyddai'n gwahardd grwpiau o'r fath rhag sefyll y tu allan i glinigau yn y fwrdeistref. Mae Richard Bentley, rheolwr gyfarwyddwr Marie Stopes UK, wedi honni y gallai'r penderfyniad annog clinigau ar draws y wlad i wneud yr un peth:

"Mae'r cam arloesol hwn gan Gyngor Ealing yn gosod cynsail genedlaethol ar gyfer rhoi terfyn ar aflonyddu menywod sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd cyfreithiol. Gobeithiwn y bydd awdurdodau lleol eraill yn dilyn yr esiampl hon ac yn gweithredu i gynyddu amddiffyniad i fenywod yn eu hardal."

A wnaiff Cyngor Caerdydd ymrwmo i ystyried dewisiadau i ddiogelu menywod sy'n defnyddio'r cyfleusterau gofal iechyd hyn yn y ddinas a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y dewisiadau?

Ymateb

Mae Bwrdd y Rhaglen Cymunedau Diogelach a Chydlynol wrthi'n gweithio gyda'r Heddlu, y Gwasanaethau Cymdogaeth a'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i baratoi datganiadau heddlu ar nifer o wahanol geisiadau Gorchymynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) yn y ddinas; y cynhelir ymgynghoriad ar bob un ohonynt a'u peilota ar ôl eu datblygu.

Sefydlwyd grŵp llywio i gydgyssylltu'r gweithgaredd hwn. Cynigir y rhoddir ystyriaeth dros y misoedd nesaf i'r cynnydd y mae Cyngor Ealing yn ei wneud o ran y penderfyniad i greu clustogfeydd o gwmpas clinigau, gan gynnwys defnyddio PSPO i wahardd grwpiau rhag cynnal gwylfeydd a grwpiau gweddïo o fewn ardal a nodir.

Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu arfer da wrth weithredu Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yma yng Nghaerdydd a byddwn yn ystyried dewisiadau priodol ar gyfer eu gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon diogelu a allai godi'n lleol.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BALE

A fydd y Cyngor yn rhoi diweddariad ar gynnydd o ran adleoli Llyfrgell Llanisien yng Ngorsaf Heddlu Llanisien i greu Hyb Cymunedol newydd ar gyfer Llanisien a Draenen Pen-y-graig?

Ymateb

Gallaf adrodd bod y gwaith adeiladu a wneir gan Knox & Wells yn datblygu'n dda a disgwylir i'r gwaith orffen yn gynnar ym mis Tachwedd 2017. Dilynir hyn gan gyfnod o osod popeth gan gynnwys TG a disgwylir y bydd yr Hyb newydd ar agor i'r cyhoedd ddydd Llun 27 Tachwedd 2017.

BUDDSODDI A DATBLYGU - Y CYNGHORYDD RUSSELL GOODWAY CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR COWAN

A oes unrhyw gostau parhaus neu weddilliol i'r Cyngor yn deillio o'r Contract Coeden Nadolig a gytunwyd yn 2016?

Ymateb

Bydd y Cyngorydd yn ymwybodol bod y contract gyda MK Illuminations ar gyfer pecyn o atyniadau goleuedig, gan gynnwys coeden artiffisial, am gyfnod o dair blynedd, ac felly mae dwy flynedd o'r contract ar ôl.

Bydd y Cyngorydd hefyd yn ymwybodol, o ganlyniad i'r goeden artiffisial yn cyrraedd yn hwyr y llynedd, rhoddodd MK Illuminations bum carw goleuedig am ddim, a brofodd yn boblogaidd iawn.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r contract gwreiddiol, ond er mwyn mynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â'r goeden, mae swyddogion y cyngor wedi cydweithio â MK Illuminations i ddod i hyd i leoliad gwahanol ar gyfer y goeden y tu allan i Gaerdydd ac i Gaerdydd gadw'r ceirw ar gyfer eleni a'r flwyddyn nesaf. Ni fu unrhyw ostyngiad ym mhpris y contract o ganlyniad i'r newid.

Does dim dwywaith y bydd y Cyngorydd yn croesawu'r ffaith y bydd gan y ddinas goeden Nadolig go iawn eleni, y tu allan i brif fynedfa Castell Caerdydd, a fydd yn

cael ei noddi gan Sayers Amusements, gweithredwr Gŵyl y Gaeaf. Deallaf fod Rightacres, datblygwr y Sgwâr Canolog, hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ddarparu coeden go iawn o fewn y datblygiad.

Ymhellach, bydd trethdalwyr yn hapus bod swyddogion y cyngor wedi sicrhau nawdd ychwanegol ar gyfer cynnig Nadolig y ddinas sy'n golygu, o gyfrif popeth, y bydd atyniadau eleni yn cael eu darparu am gyfanswm cost i'r Cyngor o £8,000 o'i gymharu ag oddeutu £220,000 cyn 2012.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BALE

A fydd y Cyngor yn darparu rhestr o'r holl ddodrefn a symudwyd o Neuadd y Ddinas a'u storio cyn Cynhadledd Ewrop 1998 a gynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas Caerdydd?

Faint y mae'r Cyngor wedi'i wario mewn costau storio ar gyfer yr eitemau dodrefn gwreiddiol a pha eitemau, os o gwbl, sydd wedi'u gwaredu gan y Cyngor ers hynny?

Ymateb

Efallai na fydd y Cyngorydd yn ymwybodol, er mwyn darparu ar gyfer cyfarfod Cyngor Ewropeaidd yn 1998, cafodd Neuadd y Ddinas ei gwagio'n llwyr er mwyn rhoi adeilad "glân" i'r trefnwyr.

Gwaredwyd rhai eitemau dodrefn, gosodiadau a ffitiadau bryd hynny oherwydd eu cyflwr gwael neu oherwydd penderfynwyd na oedd eu hangen i fodloni'r gofynion. Fodd bynnag, storiwyd y rhan fwyaf o'r dodrefn, a dychwelwyd nifer sylweddol i'r adeilad ar ôl y digwyddiad. Cafodd eitemau eraill eu storio mewn cyfleuster preifat, tan iddynt gael eu gwaredu yn 2010 yn dilyn prisiad annibynnol a ddaeth i'r casgliad bod yr eitemau a oedd yn weddill mewn cyflwr gwael, neu'n eitemau nad oedd â llawer o arwyddocâd hanesyddol, os o gwbl, nac yn eitemau gwerthfawr iawn, neu'n ddi-werth hyd yn oed. Amcangyfrifwyd bod storio popeth dros gyfnod o un deg tri mlynedd wedi costio tua £400,000.

Dywedir wrthyf nad yw rhestr fanwl i'r eitemau a waredwyd ar gael bellach, ond ar y rhestr oedd:

- 37 x Cadair Dderw
- 13 x Cadair Dderw (wedi torri)
- 40 x Cadair Dderw Carver
- 18 x Cadair Dderw Carver (wedi torri)
- 5 x Cadair Las/Gwyrddlas
- 2 x Cadair Swyddfa Grom (pren a lledr ond yn wahanol i'r cadeiriau dewr a restrir uchod)
- Amryw fyrddau (rhai mawr a mawr iawn)
- 2 x Gwarchodwr tân
- 4 x Câs Llyfr

CYNLLUNIO STRATEGOL A THRAFNIDIAETH – Y CYNGHORYDD CARO WILD
CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR TAYLOR

Pa waith dadansoddi y mae'r Cyngor wedi'i wneud o niferoedd myfyrwyr a'r twf amcangyfrifedig yn nhwf poblogaeth myfyrwyr mewn cysylltiad â nifer yr ystafelloedd myfyrwyr sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn llywio penderfyniadau cynllunio yn ymwneud â llety myfyrwyr pwrpasol?

Ymateb

Caiff niferoedd myfyrwyr ar draws y ddinas eu cyhoeddi gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Cynyddodd niferoedd myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd ar y cyd o 28,295 yn 2000/01 i 43,260 yn 2015/16, sef cyfradd dwf o fwy na 50% mewn 15 mlynedd. Mae'r twf hwn wedi sefydlogi yn y blynyddoedd diweddar.

Hefyd, mae'r ddinas yn gartref i fyfyrwyr o Brifysgol De Cymru, sy'n cynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, gyda'i champws Atriwm yng Nghaerdydd. Mae myfyrwyr sy'n mynychu colegau Addysg Bellach neu ysgolion iaith hefyd yn cyfrannu at niferoedd myfyrwyr cyffredinol yng Nghaerdydd.

Ni cheir unrhyw ofyniad statudol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fonitro ystafelloedd/datblygiadau myfyrwyr. Mae'n rhaid i'r Cyngor bennu cais cynllunio, gan roi ystyriaeth i'r Cynllun Datblygu Lleol a'r holl ystyriaethau cynllunio materol perthnasol.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR TAYLOR

A yw o fewn cwmpas y Cyngor i gyflwyno canllawiau cynllunio a fyddai'n golygu bod rhaid ystyried niferoedd poblogaeth myfyrwyr yn rhan o'r broses cymeradwyo ceisiadau cynllunio?

Ymateb

Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) drafft ynghylch Llety Myfyrwyr. Bydd y ddogfen hon yn adeiladu ar bolisiau yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ac yn cyflwyno canllawiau manylach sy'n disgrifio'r ystyriaethau cynllunio materol wrth asesu datblygiadau ar gyfer llety myfyrwyr newydd. Fodd bynnag, ni all ein CCA gyflwyno polisi newydd neu geisio ailysgrifennu canllawiau cenedlaethol.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR SANDREY

A yw'r weinyddiaeth wedi ystyried gwneud cais i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol am gyllid mewnwelediad ymddygiadol, gyda'r bwriad o sefydlu sut orau i hyrwyddo ac

ymgorffori newid ymddygiad o ran dulliau trafniadaeth yng Nghaerdydd? Y dyddiad cau yw 10 Tachwedd.

Ymateb

Naddo, oherwydd fel rwy'n deall, mae'r cyllid hwn ond ar gael i gynghorau yn Lloegr sy'n aelodau o'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR WOOD

Codwyd pryderon yn adroddiad diweddar Client Earth fod 9 ysgol yng Nghaerdydd, gan gynnwys 3 yng Ngabalfa, yn agored i lefelau Nitrogen Deuocsid (NO₂) sy'n uwch na'r cyfyngiad a argymhellir. Er bod y ffigurau hyn yn amcanestyniadau yn seiliedig ar fodel cyfrifiadurol, mae hyn yn amlwg yn peri pryder i ddisgyblion a'u teuluoedd yn yr ysgolion yr effeithir arnynt. Er mwyn tawelu meddwl, a all y cyngor ymrwmo i fonitro ansawdd aer mewn amser real yn y lleoliadau hyn er mwyn rhoi sicrwydd i drigolion lleol?

Ymateb

Rwy'n ymwybodol bod Client Earth wedi nodi 9 ysgol yng Nghaerdydd y dangosir bod ganddynt lefelau uwch na'r safon ansawdd aer gymeredig flynyddol ar gyfer NO₂ (40µg/m³); fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried y gwerthoedd hyn yn ofalus.

Fel y gwnaethoch nodi, mae'r canlyniadau hyn wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio system fodelu gyfrifiadurol ragfynegol ac nid ydynt yn ganlyniadau monitro uniongyrchol o'r ysgolion, ond yn hytrach o ffyrdd sydd eithaf pellter o'r ysgolion. Nid yw'r gwerthoedd a adroddwyd yn ystyried y gostyngiad mewn lefelau llygredd o'r ffynhonnell a gellir gwneud cyfrifiadau i ragfynegi lefelau NO₂ a allai gael eu profi yn yr ysgolion. Gan ystyried y ffigurau uchaf, ac felly gwaethaf, a gyflwynwyd gan Client Earth, byddai'r lefelau yn yr ysgolion hyn felly'n is na'r lefel gyfreithiol o 40µg/m³. Byddwn yn gobeithio y byddai hyn yn helpu i liniaru unrhyw bryderon gan staff, disgyblion a theuluoedd o ran ansawdd yr aer yn y 9 ysgol dan sylw.

Serch hynny, fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r weinyddiaeth hon wedi ymrwmo i ddatblygu Strategaeth Aer Glân gyda'r nod o wella ansawdd aer ar draws Caerdydd er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd. Un agwedd ar y strategaeth hon fydd gwella galluoedd monitro amser real y Cyngor ac mae swyddogion o'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir wrthi'n asesu dewisiadau priodol o ran offer addas a chostau tebygol, y bydd angen i'r Cyngor eu hystyried. Fodd bynnag, dewisir lleoliadau monitro ar sail risg ac felly bydd angen i waith monitro amser real yn y dyfodol ystyried lleoliadau sy'n debygol o brofi lefelau uchel o lygredd megis ffasadau preswyl.